YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

GORPHENAF, 1868.

GYFRAITH Y RHWYM-DDISGYNIAD.

GELWIR y gyfraith hon cyfraith yr *entail*, ac os bydd yr *entail* wrth y mab hunaf, gelwir hi cyfraith yr *entail and primogeniture*. Dyben y gyfraith yw lluddias y tad neu y perchenog i ranu ei stâd rhwng ei blant neu y sawl fyddo yn ddewis yn etifeddion iddo. Er mwyn ei chadw yn gryno gyda ei gilydd, sicrha cyfraith yr *entail* y stâd i un o'r meibion yn unig, ac fynychaf i'r mab hunaf. Y canlyniad yw fod y mwyafran o dir y wlad hon ym meddiant ychydig o berchenogion. Dywedasom yn ein rhifyn diweddaf fod hyn yn niweidiol i les y wlad yn gyffredinol. Dywedasom hefyd mai *monopoly* ydyw, ac i fod yn llawn bryd yn awr i'r gyfraith hon gael ei diddymmu. Ystyr y gair *monopoly* yw marchnad na bo ond i un, neu i gwmpni, a wnel a hi, neu sydd a hawl i brynu neu i werthu rhyw nwyf neu nwyfau pennodol. Dichon nad yw'r gair *monopoly* yn yr ystyr gytefig o hono yn briodol i ddyben y gyfraith hon, oblegid nid oes dim hawl gan yr etifedd i werthu y stâd; ond mor belled ag y mae yn sicrhau meddiant o'r tir i ychydig o berchenogion ac yn cauad pawb eraill allan, *monopoly* yw.

Llawer sydd wedi bod o ysgrifenu a siarad y blynyddau diweddaf y'nghylch rhydd-fasnach, neu *free trade*, ac y mae'r wlad wedi llwyddo i gael rhydd-fasnach i raddau helaeth. Mae yn bryd i ni weithian gael rhydd-fasnach cyffredinol mewn tir. Mewn geiriau eraill, mae yn llawn bryd i ddiddymu cyfraith yr *entail*. Mae tir pob gwlad yn feddiant cyffredinol y genedl neu y trigolion ag sydd yn byw arno, am hynny dylai fod yn agored i gael ei brynu a'i werthu yn y farchnad fel un rhyw feddianau eraill. Nis gallwn ni weled fod hawl gan ychydig o foneddwyr i gynnal i fynu gyfraith ag sydd yn sicrhau iddynt hwy eu hunain fwyafran o'r tir trwy gauad allan bawb eraill. Mewn gwirionedd, dylai fod pob cwys o dir yn ein gwlad mor agored i gael ei brynu a'i werthu yn y farchnadfa gyffredinol, ag ydyw'r anifeiliaid sydd yn pori arno.

Yn yr hen amseroedd, yr ydym yn addef, fod rhyw reswm dros gadw stâdoedd yn gyfain pan mae "trecha treisied" oedd y gyfraith. Yn yr

hen oesoedd nid oedd gan y werinos ddim pwer i amddiffyn eu hunain rhag trachwant a ffyrnigrwydd ysbeilwyr, oblegid caethion *(serfs)* oeddynt ar stâd y Barwn neu y pendefig. Ei feddiant ef oeddynt mor hollol â'i dda, neu ei geffylau, neu ei gwn hela. Yr oedd eu bywydau yn ei law. Gallasai wneuthur â phawb oedd ar ei stâd fel y mynnai—ei gwerthu, eu crogi, eu saethu, yn gymmwys fel y buasai'r fympwy arno. Yr oeddynt yn rhwym wrth ei stâd, ac ystyrid pob stâd o werth yn ol nifer y *serfs* neu'r caethion fyddai arni. Nid oedd dim hawl gan neb i fudo o'r stâd y cafodd ei eni arni heb ganiatad y pendefig. Ei air ef oedd gyfraith, oedd bob peth. Ynddo ef yr oedd eu diogelwch. Yr oedd yn ofynol, gan hynny, i gadw pob stâd yn gyfan er mwyn diogelu y trigolion. Ond y mae'r amser hwnw wedi myned heibio. Yn awr mae pob un yn feistr arno ei hun, a'r gyfraith yn diogelu pawb, o'r pendefig i lawr hyd y tylottaf yn y tir. O ganlyniad nid oes dim eisiau cyfraith yr *entail.*

Mae y gyfraith hon yn achosi anghyfiawnder. Onid peth cyfiawn yw i rieni ranu eu cyfoeth rhwng eu plant? Greddf yn y natur ddynol ydyw y teimlad hwn, wedi ei blanu ynom gan y Duw Mawr ei hun, sef i rieni garu eu plant yn ddiwahan ac i ddymuned dedwyddwch y naill o honynt yn gystal a'r llall. Yn gymmaint gan hynny ag i fod cyfraith yr *entail* yn rhwymo cyfoeth y teulu wrth un o'r plant ar gost yr aelodau eraill, y mae yn gyfraith anghyfiawn ac yn gwrthryfela yn erbyn teimladau goreu ein natur. Pan yr ystyriom hyn, pwy ryfedd fod anghariad a chenfigen yn fynych yn ffynu yn nheuluoedd pendefigion? Y ffaith fod un yn y teulu yn cael ei wneuthur yn Nabob, ac eraill mewn ystyr yn *baupers*, a sura y teimladau, oblegid gwyddant fod ganddynt hwy mewn gwirionedd gystal hawl i gyfran o'r stâd ag sydd gan eu brawd hunaf. Cyfraith anghyfiawn ydyw hon. Y mae yn gwrthryfela yn erbyn egwyddorion y natur ddynol. Dylai gan hynny gael ei dynoethi, fel y delo y wlad yn gyffredin i ganfod y niwed o honi. Pa mor addas bynnag ydoedd i sefyllfa pethau yn yr hen amseroedd, cymmaint yw'r cyfnewidiadau sydd wedi cymmeryd lle yn y byd wedi hynny fel nad ydyw *entail* mwyach ond rhwystr ar ffordd gwareiddiaeth a lles cyffredinol y wlad.

Ond ym mhellach, nid yn unig achosa y gyfraith hon anghyfiawnder a'r canlyniadau o hono mewn teuluoedd, y mae yn niweidiol hefyd i les y wlad yn gyffredinol, ac yn enwedig i grefydd. Dywedasom ei bod yn cyfoethogi un o'r plant, ac yn gwneuthur *paupers* o'r lleill. Nid *paupers* yn yr ystyr gyffredin o'r gair i'w cynnal gan y plwyfi, neu i'w danfon i'r tylod-dy, ond *paupers* i'w cynnal mewn sefyllfaoedd *respectable* ar feddianau a threthi yr holl wlad. "Sut mae hyn yn bod," medd rhyw un? Mae yn eithaf amlwg. Os digwydd fod rhagor o feibion yn y teulu na'r etifedd, rhaid cael bywoliaeth iddynt ryw fodd, a bywoliaeth a fyddo yn deilwng o foneddigrwydd y teulu. I'r dyben hyn cyfodir un i fynu yn offeiriad, a chyfrwyir ef ar gefn yr Eglwys Sefydledig, hynny yw, mewn gwirionedd, ar gefn y wlad, oblegid meddianau y wlad yw cyfoeth yr eglwys hon. Nid oes o'i brasach yn y byd. Mae yn difa yn y flwyddyn fwy na deuddeg miliwn o bunnau! P'un a oes gan *Master John* gymmwysderau moesol a naturiol priodol at y gwaith pwysfawr o draddodi Efengyl Crist i bechaduriaid, a'i nid oes, i'r Eglwys mae yn rhaid iddo fyned.

O ran ei chyfansoddiad un lled eang ydyw Eglwys Loegr. Yn ei ei hoffeiriadaeth y mae graddau. Ceir ynddi esgobion ac arch-esgobion; ond nid esgobion cyffelyb i esgobion cyntefig yr eglwys Apostolaidd. Pe gofynasai rhyw un yn Antioch neu Alexandria, b'le yr oedd yr esgob yn byw, digon tebyg y dangosid ef i fwthyn tylawd rhyw grydd neu deiliwr neu saer mewn hewlan gul ym mharthau cefnol y ddinas. Ond am ein esgobion a'n arch-esgobion ni, boneddwyr ydynt yn gwisgo, nid arffedog ledr yn disglaerio gan bwys y *lapstone* a hogiad y gyllell, ond mitrau a sidanau, ac yn byw mewn palasdai ardderchog. O'r personau gorwych hyn i lawr trwy res fawr o ditlau nas gallwn ei cofio, hyd y clochydd llwm a'r porthor, mae lle i bob gradd, o impyn y pendefig hyd fab yr hwsmon a'r crefftwr. Mae ynddi hefyd "*livings*" cymmwys i sefyllfa pawb, o'r miloedd i haner canpunt. Dichon i fod "*living*" yn barod i *Master John* ar y stâd, neu os nad oes, mae gan ei pherchenog ddigon o ddylanwad ar yr Esgob, neu'r *Lord Chancellor*, neu ryw un sydd a *livings* yn ei feddiant, i gael un i'r gwr ieuanc fyddo yn deilwng o fonedd y teulu.

Dyma'r cysylltiad sydd rhwng cyfraith yr *entail* a chrefydd. Beiddiwn ddyweyd nad oes un dyn diduedd na chydsynia a ni yn ein barn mai dylanwad niweidiol ydyw. Rhodda annogaeth i ddynion anaddas at y gwaith i gymmeryd arnynt i bregethu yr efengyl—y swydd ddiweddâf a ddewisent hwy eu hunain oni bae y fywoliaeth. Beth ydyw hyn ond gwneuthur masnach o air Duw? Mae y drwg hwn o angenrheidrwydd y'nglyn a phob Eglwys Sefydledig, mae yn wir, ond y mae cyfraith yr *entail* yn gwneuthur y drwg yn waeth. Pe diddymid hon, gwnelid cymmwynas nid bychan â chrefydd. Os na fyddai y diddymiad yn foddion i dorri yn hollol y cyssylltiad halogedig rhwng y Llywodraeth a'r Eglwys, symmudid llawer o'r Simoniaeth* sydd yn awr yn blaguro yn yr eglwys hon, ac yn gwneuthur crefydd yn wradwydd i'r byd. Mae ei bydoldeb a'i digristiaeth yn llygru pob gradd o'r trigolion, ac un o attegâu *(props)* cryfaf yr Eglwys Sefydledig yw cyfraith yr *entail*.

Derbynfa arall i feibion y bendefigaeth a ysbeilir o'u iawnderau gan gyfraith yr *entail* yw y Fyddin a'r Llynges. Pe derbynid hwy yno ar yr un telerau ag eraill, byddai pob peth o'r goreu. Y cyfryw, mewn un rhyw alwedigaeth, a godant i fynu o radd i radd trwy eu diwydrwydd, eu hymdrech, a'u medr, ydynt deilwng o bob parch; ond nid felly yn gymmwys feibion y bendefigaeth yn y fyddin a'r llynges, oblegid nid yw eu dyrchafiad yn ymddibynu ar eu teilyngdod. Y peth cyntaf a wneir yw prynu "Commissiwn" i Master William braidd cyn tyfo ei farf. Gosodir yr impyn ieuanc yn uniongyrchol mewn swydd a ddylai gael ei llanw gan y milwr goreu yn y rheng. Ym mhen ychydig amser dyrchefir ef i swydd uwch etto, er nad ymdrechodd y gwr ieuanc baratoi ei hun iddi, oblegid gwyddai y byddai yn sicr o honi am arian.

Mae effaith y drefn hon yn niweidiol mewn rhagor nac un ffordd. Nid

---

* *Simoniaeth*, neu *Simoni*, yw ceisio bywioliaeth eglwysig neu ddoniau yr Ysbryd Glan er gwobr a gwerth. Prynu a gwerthu bywioliaeth eglwysig. Mae'r gair yn ddeiliaw oddiwrth ymddygiad Simon Magus [Actau viii. 9—54], yr hwn a geisiodd brynu gan Pedr ddawn yr Ysbryd Glan. Peth cyffredin yw prynu a gwerthu *livings* ar *auction*, ac y mae *offices* yn Llundain at y gwaith.

oes obaith i neb yn y fyddin a'r llynges Frytanaidd am ddyrchafiad trwy deilyngdod. Braidd byth y cyfyd milwr cyffredyn yn uwch na *Sergeant*, oblegid nid teilyngdod sydd yn dyrchafu, ond y pwrs. Ym myddinoedd Ffrainc mae'r drefn yn wahanol, oblegid diddymmwyd yno gyfraith yr *entail* yn amser y chwildroad cyntaf. Mae gan bob milwr yno yn awr obaith i ddringo nes y cyrhaeddo y ffon uwchaf. Canlyniad ein trefn filwraidd ni yw, mai ychydig o ddynion ieuainc sobr, ac o gymmeriad da, sydd yn dewis myned yn filwyr, oblegid ni fyddai ganddynt obaith codi yn uwch na chyflwr milwr cyffredin. Hefyd, peth sydd yn cyffroi eiddigedd a thymmerai annymunol yn y dynion yw canfod hogyn diffarf, dibrofiad, ac anwybodus yn y gelfyddid filwraidd, yn cael eu ddyrchafu i swyddi, dros ysgwyddau eraill mwy teilwng o honynt. Am hynny, dynion ieuainc o gymmeriad isel sydd fynychaf yn *enlisto*. Gellir dywedyd braidd am y *Recruiting Sergeant* mai ysbeilio y carcharau wna. Pe diddymmid cyfraith yr *entail*, gwellid cymmeriad y fyddin a'r llynges, oblegid hon yw y prif achos o ddyrchafiad trwy bryniad ac nid trwy deilyngdod, fel y dylai fod.

Hefyd, mae dyrchafiad trwy bryniad commissiwn yn y llynges a'r fyddin nid yn unig yn anghefnogaeth i ddynion ieuainc dianwadal i gymmeryd at yr alwad filwraidd, ond hefyd y mae yn un o'r prif achosion a ddwg golledion diangenrhaid ar fywydau a meddianau, megys yn y Crimea ys blynyddau yn ol. Rhaid addef, er mae dyhirynod fynychaf yw y rhai sydd yn *enlisto*, fod *stwff* ynddynt er hynny ag sydd yn gwneuthur milwr dewr yn ol ei dorri i mewn. Nid ymffrost fyddai dyweyd nad oes neb sydd yn ddewrach yn y frwydr na'n milwyr ni. Tan lywyddiaeth *officer* penderfynol, medrus, ac un a ddeall yn drwyadl yr alwedigaeth filwraidd, mae *regiment* o filwyr Brydeinig yn anwrthwynebol yn yr ymgyrch. Nid oes neb a wyddant hyn yn well na'r Ffrancod a'r Rwssiaid. Nid yw'r olaf wedi anghofio brwydr Inkermann, na'r Ffrancod rai o'r ymosodiadau arnynt gan ein milwyr dan Picton yn yr Yspain a Waterloo. Pan arweinir hwynt ar faes y frwydr gan wron o fath ein cyd-wladwr hwnnw, y maent yn annorchfygol; ond anfynych y cant y fath *officer*. Addefodd Bonaparte fwy nac unwaith wrolder y milwyr Brydeinig, ac â hwy ganddo dywedai na fuasai arno ef ofn wynebu neb mewn brwydr. "Llewod ydynt," meddai, "yn cael ei harwain gan asynod." Mae llawer gormod o wir yn hyn; ond pwy ryfedd pan ystyriom mai dynion yw y rhan amlaf o'r *officers* a ddyrchafwyd i'w swydd, nid oherwydd eu gwybodaith a'u medrusrwydd milwraidd, ond trwy nerth arian. Dyma effaith yr *entail*

Gwnaethpwyd sylw yn ddiweddar yn un o'r papyrau Seisnig i ryfelgyrch Abyssynia lwyddo oherwydd nad oedd gan Syr Robert Napier yn y fyddin bendefigion o fath "Lord Dundreary" i faeddu ei gynlluniau. Ond gan nad beth am hynny, sicr yw y byddai diddymiad cyfraith yr *entail* yn lles mawr i'r fyddin a'r llynges. Gyda'r gyfraith hon darfyddai prynu swyddi a lenwid o hynny allan â dynion addasach. Costai y fyddin a'r llyngais hefyd filiwnau o bunnau bob blwyddyn yn llai i'r wlad. Ond nid ymhelaethwn ym mhellach y tro hwn. Ni gawn ddychwelyd etto cyn bo hir at y pwnc, oblegid mae yn rhaid i ni egluro drwg-effaith *entail* ar etholiadau seneddol, cyflwr yr amaethwr, &c. Anhawdd

yw credu mor helaeth yw effeithiau y gyfraith hon ac mor niweidiol i gyflwr ein gwlad yn gyffredinol. Nid oes un gobaith i'w symmud, ond trwy oleuo y bobl yn ei chylch, yna "Trech Gwlad nac Arglwydd."

YCHYDIG O HANES PELAGIUS.

Dywedid yn gyffredin fod erthyglau ei heresi ef yn gynnwysedig mewn dau beth, set "Gwadu pechod gwreiddiol, a'r anghenrheidrwydd am ras dwyfol i gyflawni gweithredoedd da. Gyda golwg ar bechod gwreiddiol, neu droseddiad a syrthiad dyn trwy fwyta y ffrwyth gwaharddedig, nid oedd yn ei wadu; nid yw ychwaith yn gwadu nad oedd hyny yn niweidiol i'w hiliogaeth, ond yr oedd yn gwadu fod Duw yn cyfrif hyny iddynt, neu yn eu hystyried hwy yn euog o'r troseddiad hwnw, neu o'r weithred o archwaethu y ffrwyth gwaharddedig yn ngardd Eden.

Nis gallasai y pechod gwreiddiol, neu y weithred gyntaf o annfuddod Adda, fod yn gyfrifadwy i neb ond i'r hwn, yn unig, oedd wedi ei gyflawni, a dywedir ei fod wedi haeru na ddylid caniatai fod Duw (yr hwn sydd yn maddeu i ni ein pechodau ein hunain) yn cyfrif i ni bechodau dynion eraill. Yr oedd yn dal yn dyn, gan hyny, fod dynion yn cael eu geni heb euogrwydd yn gystal ag heb deilyngdod, heb ddrygioni yn gystal ag heb rinwedd, heb bechod yn gystal ag heb sancteiddrwydd, a'u bod yn dyfod yn bechaduriaid, nid trwy nattur, neu o anghenrheidrwydd, ond trwy ddewisiad, wedi cyrhaedd rhyw radd o ddeall, a chwedi dyfod yn fodau moesol. Yr oedd ei elynion yn haeru ei fod yn dal fod babanod yn yr un cyflwr ag oedd Adda ynddo cyn y cwymp; yr hyn oedd ef yn wadu, a hyny am fod babanod yn ymddifad o reswm a deall, yr hyn nad oedd felly gyda golwg ar Adda. Meddylia fod dyn yn dyfod i'r byd heb un duedd i weithredu yn ddrwg yn fwy nac yn dda, a'r un mor alluog i dderbyn argraphiadau da a drwg.

Dadleuai nad oedd yr enaid ddim wedi ei lygru, am y reswm mai oddiwrth Dduw oedd wedi deilliaw yn uniongyrchol (yr hwn yn unig yw Tad ein hysprydoedd), ac nid oddiwrth y rhieni yn ffordd natturiol cenhedliad; ac oblegid hyny yr oedd yn dal fod enaid y plentyn newydd eni o angenrheidrwydd yn rhwym o fod yn bur, ac yn ddihalogedig, ac i aros felly hyd nes y byddai yn cael ei lygru gan, neu trwy, droseddiad gweithredol.

Ymresymai, oddiar dir neu egwyddorion ei wrthwynebwyr, fod yn rhaid fod y baban yn rhydd oddiwrth bechod gwreiddiol, gan ei fod wedi cael ei olchi ymaith o'u rhieni, ac nas gallasent hwy drosglwyddo i'w hiliogaeth yr hyn nad oedd ganddynt hwy eu hunain.

Gyda golwg ar y cyhuddiad arall y'nghylch gallu dyn i gredu yr efengyl, neu i wneuthur ewyllys Duw er sicrhau iechydwriaeth, nid oedd yn cau allan, nac yn gwadu yr angenrheidrwydd o ras dwyfol; y peth oedd ef yn ddal, ac yn adywedyd oedd, ei fod yn bossibl i ddyn i wneuthur ewyllys Duw, a chadw rhag pechod trwy gymhorth gras; y gras hwnw

sydd yn dwyn iechydwriaeth, ac yn ein dysgu i ni i wadu chwantau bydol, a byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd sydd yr awr hon; wrth yr hyn y golygai y Dadgyddiad Dwyfol, neu'r Efengyl.

Yr oedd Austin yn gwrthdystio yn uchel yn erbyn y syniad uchod, ac yn ei alw yn ras allanol, a dadleuai dros ddylanwad dwyfol mewnol, uniongyrchol, ac anwrthwynebol, a'r wahân oddiwrth yr efengyl. I'r dyben i brofi y possibilrwydd o gyrhaeddyd perffaithrwydd cymeriad trwy ymdrechiadau diflino a chymorth Duw, y mae Pelagius yn dwyn yr engreiftiau canlynol yn mlaen, sef Abel, Enoc, Melchisedec, a'r Forwyn Fair; yr hyn na addefai Austin ond yn unig am yr olaf, yr hon, yn ei feddwl ef, oedd wedi cael gras neillduol ac arbenigol i'w galluogi i orchfygu pob pechod, ac o ganlyniad nad teg oedd ei dwyn hi ym mhlaen fel engraifft.

Yr oedd y Pelagiaid yn dal fod gofynion Duw yn bossibl i ddyfod i fynu iddynt, neu yn ammhossibl; yn ymarferol, neu ddim yn arferol; os y blaenaf y mae ufudd-dod yn hollol gyrhaeddadwy; os yr olaf, nis gall anufudd-dod fod yn beth ceryddadwy, oblegyd ni fyddai neb mor annoeth a chondemnio neb am beidio cyflawni yr hyn nad oedd, neu nad yw, yn ddichonadwy i'w gyflawni. Gwahaniaethai Pelagius rhwng erthyclau ffydd a phethau amgylchiadol, rhwng y sylwedd a'r cysgod, ac haerai mai o nattur amgylchiadol oedd y cyhuddiadau oeddynt yn cael eu dwyn yn ei erbyn, yr hyn nad oedd heresi; yr hyn yw cyfeiliornad o'r nattur flaenaf. Pan gyhuddwyd ef o fynwessu neu lettya rhyw feddylddrychau ansynwyrol yn nghymanfa eglwysig Diospolis, haerodd nad oedd, naill na thrwy ei air na thrwy ysgrifen, wedi eu dwyn yn mlaen, a phan ofynwyd iddo a fuasai yn condemnio y rhai oedd yn eu mabwsiadu, dywedodd, Gwnaf fel ffyliaid, ond nid fel hereticiaid.

Fel y Sandemaniaid, meddyliai na ddylai Cristnogion fod yn achubus am, nac ystorio arian; ac fel y Crynwyr gwadai gyfreithlondeb llw.

Pwnc mawr arall mewn dadl rhwng Pelagius a'i wrthwynebwyr, oedd *Bedydd Babanod.*

Ymddengys na ddarfu iddo wrthwynebu yr arferiad yn gyhoeddus, a chan yr ystyriai fod babanod yn ddibechod, gwadai fod yr arferiad, neu y ddefod yn pwrcassu maddeuant pechod. Yr oedd ei wrthwynebwyr yn meddwl, neu yn drwg-dybio, nad oedd yn cymeradwyo bedydd babanod yn ei galon, a chyda golwg ar hyn nid oeddynt, wrth bob tebyg, yn gamsyniol, gan nad oedd yr arferiad, wrth bob tebygolrwydd, ddim wedi cael ei fabwysiadu, neu ei ddwyn i ymarferiad erioed yn ei wlad enedigol.

Y mae Austin yn siarad mewn llawer o fanau fel pe meddyliai fod gan y Pelagiaid feddwl cryf i wadu bedydd babanod, pe meddent ar ddigon o wroldeb, a mynai Marius Mercator fod eu teimlad mewnol yn ei erbyn. * * *

Ymddengys mai dyn lled ofnus oedd Pelagius, ac oblegid hyny yn anewyllysgar i ddinoethi ei hunan yn ddibwrpas i gynddaredd ei elynion, neu osod ei hunan yn nwylaw y rhai ni fuasent ddim yn dangos un drugaredd iddo, o'r hyn lleiaf, heb ddadgyffesiad hollol.

Yr oedd yn adnabod ei ddynion ac yspryd ei amserau, o ganlyniad yr oedd yn bur ochelgar, ac ar ei wyliadwriaeth yn barhaus fel ag y bu ein

Harglwydd gyda golwg ar ei elynion, y rhai oeddynt am ei ddwyn i'r rhwyd.

Cyhuddwyd Pelagius, yn wir, o fyned tu draw i derfynau gochelgarwch ac iddo fod yn euog o ragrith i'r dyben o sicrhau ei ddiogelwch. Os gwnaeth felly, yr oedd yn feius mae'n wir; ond y'ngwyneb hyny, amlwg yw fod ymddygiad ei elynion, y rhai a'i gorfodasant i wneuthur felly, a thra yr oeddynt yn ei gyhuddo ef, yr oeddynt, ar yr un pryd, yn cyhoeddi eu gwarth a'u gwaradwydd eu hunain.

Nad faint yr hocced a'r rhagrith y gallasai fod yn euog o hono, yr oedd i gael ei briodoli yn hollol i ymddygiad geluniaethus, ac erlidus ei elynion. Pe buasent yn caniatai rhyddid cydwybod iddo, diamheuol yw y bnasai yn traethu ei syniadau yn hŷ, yn ddiogel, yn rhydd, ac yn ddiofn; ond pan ydym yn ystyried fod ei enw da, a'i gymeriad, ei ddiogelwch, a'i fywyd mewn perygl, gallwn yn rhwydd basio heibio iddo ar gyfrif gwendid ac amherffeithrwydd y nattur ddynol mewn amgylchiad mor anymunol ag oedd ef ynddo—amgylchiad ag y dymunai pob dyn na ddelai fyth i'w gyfarfod. MHACI.

GWRANDAWR YMARFEROL.—Adroddir gan y diweddar Mr. Erskine, gweinidog Americanaidd, yn un o'i bregethau, am ddyn oedd wedi bod mewn addoliad cyhoeddus ac wedi dychwelyd adref yn gynt nag arferol, i'r hwn y gofynwyd, "A ydyw yr oll wedi ei orphen?" "Nac ydyw," attebodd yntau. Y mae'r oll wedi ei *ddweyd*, ond nid ydyw'r oll wedi ei *wneyd*." Y mae'r *dweyd* a'r *gwneyd* yn ddau beth hollol wahanol; ac y mae'n boenus sylwi ychydiced yn y cyffredin sydd yn cael ei *wneyd* o'r hyn oll a gaffo ei *ddweyd*, nad pa mor *dda* y byddo'n cael ei ddweyd. "Os gwyddoch y pethau hyn, gwyn eich byd os y gwnewch hwynt."

CYNGOR DA.—Yn y boreu y mae'r meddwl yn dawel; nid yw temtasiwnau y dydd wedi eich amgylchynu; nid yw dyledswyddau y dydd wedi llanw eich meddwl a dechreu eich gofidio. Cyn yr eloch at ddyledswyddau y dydd, ei ofalon, a'i anesmwythderau, a'i demtasiwnau, dechreuwch y dydd trwy weddi. Temtasiwnau yr ydych yn sicr o gyfarfod; treialon eich rhinwedd a'ch amynedd a fyddant yn sicr o'ch goddiweddyd; a llawer gwaith cyn nos bydd arnoch eisiau cymmorth eich TAD i'ch tarianu. Ewch atto Ef, a ceisiwch ei gyngor i'ch arwain, ei allu i'ch dal i fynu, ei bresennoldeb i'ch diddanu, a'i ysbryd i'ch sanctiddio. Yna byddwch wedi gwneuthur yr hyn sydd yn gyfartal i hanner dyledswyddau y dydd, pan fyddoch wedi ynnill ei ofal a'u gynnorthwy. A phan y del yr hwyr, pan fyddoch wedi cyflawni dyledswyddau y dydd, y corph wedi blino, a'r meddwl yn lluddedig, pan fyddo'r byd wedi eu gauad allan gan gysgodau'r nos, pan y deloch i edrych yn ol ac i adolygu y diwrnod, pan fyddoch yn gweled gymmaint o ddiffygion sydd yn eu nodi, pa gynnifer o ammherffeithderau sydd yn pyngu oddiamgylch i chwi, pa gynnifer o bechodau sydd yn syll-dremu yn eich wyneb, pa mor lleied ydych wedi wneuthur trosoch eich hunan, tros eraill, a thros Dduw, y diwrnod wedi gorphen, *dyna'r pryd* mae'r awr weddi. Bydd yn felus meddwl fod gennych UN at yr hwn y gallwch fyned, a'r hwn

a wrendy arnoch; Un a faddeu i chwi, os ydych yn edifeiriol, ac yn ymbil arno yn enw Iesu Grist; Un a dderbyn eich offrwm hwyrol, ac i rydd i chwi nerth dros y foru, ac a'ch gwregysa a'i gyfiawnder. Yr awr hon, os defnyddir hi yn iawn, a fydd fel wynebpryd llonnedigawl y cyfaill mwyaf hoff. Gofalwch na adawoch i ddim fyned rhyngoch â'r oriau hyn sydd yn gyssegredig i Dduw. Cofiwch am Daniel prif weinidog Persia, a matterion cant ag ugain o daleithau yn ymorphwys ar ei feddwl, er hynny, yn caffael amser i "ostwng ar ei liniau dair gwaith yn y dydd, ac i weddio, ac i gyffesu o flaen ei Dduw." Cofiwch am Alfred a gofalon y deyrnas; am Luther yn cael ei guro gan dymhestloedd y llid Pabyddol; am Thornton, yn amgylchynedig gan filoedd o orchwylion marchnadol, er hynny, byth yn gadael ei fatterion bydol i ymwthio i mewn i oriau dyfosiwn. Todd.

MAE MAM WEDI MARW.

Mae mam wedi marw! O! frawddeg gynnhyrfus,
Yr hon sy'n aredig fy mynwes yn awr;
Mae mam wedi marw! Pa fodd gallaf gredu,
Fy mod wedi colli un garwn mor fawr?

Mae mam wedi marw! Cydblyged y blodeu,
Eu pennau mewn dwys gydymdeimlad â mi;
Mae'm calon ar dori, pa ryfedd yr awrhon,
I'm dagrau ymdreiglo i'r ddaear yn lli'.

Mae mam wedi marw! Mae oerchwys yn treiglo,
I lawr dros fy aeliau wrth feddwl am hyn;
Fy mynwes sy'n orlawn, a'm gwedd yn wywedig,
Gan hiraeth a galar edrychaf yn syn.

Mae mam wedi marw! Ah! collais yr awrhon,
Yr oreu a feddwn drwy'r ddaear i gyd;
'R wyn blentyn amddifad, dymunwn gael aros,
Dan gromlech unigol o olwg y byd.

Mae mam wedi marw! Mae'm cartref yn unig,
Nid ydyw fy mam yno'n gwenu fel bu,
Diflanodd pob cysur, nos dywyll gymmylog,
Draw yn y dyfodol yn f' aros y sy.

Llanarmon D. C. G. Ceidiog Roberts.

Byddwch bob amser i fynu ar godiad yr haul, os ewyllysiwch gael y rhagolygon mwyaf euraidd.

Addolir aur gan bob math o ddynion heb deml, ac ym mhlith yr holl addolwyr nid oes gymmaint ag un rhagrithiwr.

Mae diogi yn tyfu ar ddynion, dechreua yn wê'r côr, a derfydd yn gadwynau heirn. P'un mwyaf o waith fyddo gan ddyn, mwy all wneuthur, oblegid dysg fod yn gynnil ar ei amser.

Y LLEIDR AR Y GROES.

MAE'R hanes yma yn cael ei deimlo yn ddyrys gan lawer o bob enwad, a thebyg yw fod llawer esboniad arno ym mhob enwad sydd yn caniatau gwahaniaeth barn.* Gofynir, pa fodd y gallasai Crist *addaw*, &c. A oes yma addewid yn bod? Beth yw addewid? Bydd llawer o'r rhai a ddarllenant y sylwadau yma ym mis Gorphenaf wedi marw cyn weled Gorphenaf arall. A'i addewid yw hwn? Bydd D'Israeli yn cael ei ddyrchafu i dŷ yr Arglwyddi ac yn cael ei enwi Lord Hughenden. A yw y geiriau yma yn gytystyr ag addewid? Ym mhellach, beth yw Paradwys? Nefoedd. A oes sicrwydd o hyny? A aeth Crist i'r nefoedd y dydd yr adroddwyd y geiriau crybwylledig? Beth ddywed yr hanes? Bu Crist ar y ddaear ddeugain niwrnod wedi hyn. A aeth y lleidr i'r nefoedd? Y geiriau ydynt "Heddyw y byddi gyd â mi ym Mharadwys." Yn y nefoedd?—am beth? Am wawdio'r Iesu? Ymddengys oddiwrth Matthew a Marc mai gwawdio oedd y ddau. A oes *rhaid* tynu casgliad gwahanol oddiwrth Luc? (Matt. xxvii. 46; Marc xv. 32). Cymmharer yr hanesion yn ofalus â'u gilydd. Gair o darddiad Persiaidd ydyw Paradwys, ac yn arwyddo gardd. Felly gyda phriodoldeb y cyflenr ef at ardd Eden yn y lxx. Myn rhai ei fod yn y geiriau dan ein sylw yn arwyddo y rhan hono o Hades, lle y derbynid y rhai da, yn ol tyb yr Iuddewon, yn union ar ol marw. Gwir, na wyddom ond y nesaf peth i ddim am fywyd a chymmeriad y drwg-weithredwr yma. Beth oedd ei drosedd nis gwyddom, ac nis gwyddom faint oedd er y troseddodd, nac ychwaith pa faint oedd er y dechreuodd edifarhau, os oes sicrwydd am ei edifeirwch. Gwir, mae'n addef ei fod yn dioddef yr hyn a haeddai. Ond ynfydrwydd o'r mwaf fyddai cymmeryd y geiriau yma yn sylfaen ymddiried yn effeithioldeb yr hyn a elwir yn edifeirwch gwely angeu. Dywedir fod un enghraifft o edifeirwch ar awr olaf bywyd yn cael ei gofnodi fel na byddo i ni rytygu. Onid rhyfygu, a rhyfygu yn ofnadwy y mae dyn wrth oedi dydd edifeirwch. Dyn yn boddi yn gwrthod llong neu fâd yn dyfod yn amserol, gan ymddiried y caiff osod ei bwys ar welltyn ym mhen tipyn bach. Pwy sy'n sicr y caiff gyfleu i edifarhau? A pha faint yw gwerth edifeirwch na fyddo'n esgor ar ffrwythau? Beth, hau i ddiafol, a medi i Dduw? A oes rheswm yn y peth? Na thwyller chwi, ni watwarir Duw, canys, &c. Gwir, mae Duw yn drugarog, ond a'i trugaredd fyddai rhoddi nefoedd i un heb ynddo un rhith o gymmhwysder i nefoedd? Mae Duw yn gyfiawn hefyd, ac Efe a dâl i bob un yn ol ei waith. "Arglwydd, cofia fi pan ddelech i'th deyrnas." "Efe a waredodd eraill," meddai'r arch-offeiriaid, "ei hunan nis gall efe waredu." A'r un peth hefyd a edliwiodd y *lladron* iddo." "Heddyw y byddi gyd â mi ym Mharadwys." Beth ydyw'r ffaith? Yn y bedd y buont ill dau—o gyrhaedd gwawd a dirmyg eu gelynion, yn y bedd lle nad oes gofid na galar mwy, lle nad oes colli dagrau mwy. *Nawr*, nid rhywbryd etto, *heddyw* nid y fory, yw'r amser i edifarhau a byw bywyd newydd a gwell.

* Gweler Esboniad y diweddar John Jones, gweinidog Hen Dy Cwrdd, Aberdâr yn ei bregeth ar "Edifeirwch Gwely Angeu," tud. 19.

Na fyddwn fel Felix yn ffol, a disgwyl cyfleu rhyw bryd etto i wneud yr hyn a ddylai gael ei wneud yn awr. Nid yw yn debyg y bydd genym fwy o nerth ymddiwygio y fory nag sydd genym heddyw. Bydded ein harwyddair ynte—HEDDYW. Un sylw etto—Nid oedd dim adnodau nac attal-nodau *(stops)* yn y Beibl yn wreiddiol. Beth pe ddarllenem yr adnod yng ngoleu athrawiaeth yr adferiad fel y canlyn: "Yn wir meddaf i ti heddyw, y byddi gyda mi ym Mharadwys?" L——E.

CAPEL CWMMWRDU.—Mr. Golygydd, a ydyw wedi tywyllu o bob cyfeiriad ar drigolion yr ardal hon i gael ailadeiladu, neu yn hytrach adgyweirio, y Capel bychan hwn? Y mae yn llawn bryd bellach, tybiwn i, i ryw un ymgymmeryd a'r gorchwyl, yn lle gadael i Undodiaeth ddiflanu yn gyfangwbl o'r gymdogaeth. Yr wyf yn cofio darllen yn yr YMOFYNYDD rhyw amser yn 1863 (megys ddoe yr ymddengys i mi, mor gyflym yr eheda amser, ac mor gyflym yr ehedwn ninnau ar ei adenydd) rai sylwadau gyda golwg ar ei adgyweirio, a barnwyd y pryd hyny y buasai tua £30 yn ddigon i'w osod yn addoldy cysurus, fel ag y bu unwaith, ac yn ddiammeu pe bai y Bod Goruchaf wedi gweled bod yn dda i arbed ein parchus gyfaill, y Dr. Lloyd, y buasai ef yn ei weled yn cael ei gyflawni. Y mae y Parch. William Thomas, A.C., gweinidog ffyddlawn Llwynrhydowen, wedi addaw na fyddai ei ran ef yn ol, mewn cyssylltiad a'r peth, ac yr wyf yn gwybod y byddai yn dda gan ei galon weled achos Undodaidd yn cael ei ail-gychwyn yn ei ardal enedigol, ac y gwnelai lawer er mwyn ei ddwyn o amgylch, ac fel y dywedodd mewn ysgrif yn yr YMOFYNYDD, y byddai yn dra sicr y gwnelai gweinidogion siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi, ynghyd a'r myfyrwyr yn y Coleg, eu rhan mewn perthynas a'r pregethu. Yn wir, fel y sylwodd Mr. Thomas, y *laymen* sydd ar ol; pe buasent hwy yn cael y ty yn gyfleus fe gawsent bregethwyr yn ddiddadl. Y mae yn amlwg nad ofn y buasai tyniad yn ol yn y ffordd arianol sydd yn peri ei fod heb ei gyweirio; nage, ond rhyw farweidd-dra ym mhlith ein *laymen*, a'n gweinidogion hefyd am wn i; dim digon o ysbryd yn yr un o honom i ymaflyd yn y gorchwyl. Beth fuasai deg punt ar hugain i wneyd fyny rhwng ffryndiau a theuluoedd Undodaidd yn yr ardal? Yr wyf yn meddwl, a dyweyd y gwir glan gloyw, ein bod ni, yr Undodiaid, yn fwy marwedd a digyffro gyda ceisio lledaenu ein cred nag un sect dan yr haul. Mae yn yr ardal hon lawer teulu nad oes arno gywilydd i arddel ei fod yn deulu Undodaidd, ac a fyddai yn llawenhau yn fawr i weled y ty-cwrdd hwn yn cael ei osod, unwaith etto, yn addas i addoli yr *Un* a'r unig wir a bywiol Dduw. Onid yw yn bryd cyd-ymdeimlo a'r teuluoedd hyn? Wrth reswm, y mae rhai o honynt yn awr, er ys blynyddau maith bellach, wedi ymuno a chymanfaoedd eraill, ond y mae llawer o honynt na ânt i un man, ond a arosant gartref Sabbath ar ol Sabbath, ac mewn gwirionedd dyna'r ffordd yr ydym ni yn colli ugeiniau ag a fuasent yn Undodiaid trwyadl pe buasai achos Undodaidd yn eu hardal. Y mae yn llawn bryd i ddrychad ar ol y fath deuluoedd, a pheth dedwydd iawn i lawer meddwl yn ardal Cwmmwrdu, Brechfa, fyddai gweled y Capel hwn yn cael ei daclu i gynal gwasanaeth ynddo etto, ond fel yr ydych, Mr. Golygydd, wedi sylwi eisioes, "Haner y

gwaith yw dechreu." Gofynaf ynte, a oes neb yn ein plith *a* ddechreua? Pe bai un o'n gweinidogion yn *cychwyn* y peth, buasai'r *laymen* yn sicr o deimlo dyddordeb mawr yn y mudiad, ac felly aethai ym mlaen yn berffaith llwyddianus. Yr wyf yn gosod ar un o'n gweinidogion i gychwyn y peth, oherwydd y maent hwy yn cael y gair yn wastad o fod dipyn yn fwy awdurdodol *(influential)* na'r *laymen.*

Efallai fod yn gystal i mi yn y fan yma yn awr ddyweyd beth sydd eisiau wneyd i'r Capel, gan fod amryw o'ch darllenwyr ddim yn gwybod, yn ddiau. Y mae yr hen furiau yn sefyll mor gadarn ag erioed, ond y mae y nen wedi syrthio; ydynt, y mae yr hen furiau yn sefyll fel pe baent yn dysgwyl yn daer ar ryw wr trugarog i gymeryd sylw o honynt. Felly y pethau angenrheidiol i'w gwneyd ydynt, gosod nen ar y ty, a chorau a phulpit oddifewn, yr hyn a wneir yn hawdd, a'r swm grybwylledig (£30) pe bai ryw un yn cymeryd arno y gorchwyl o ddechreu mwstro'r mudiad yn y blaen.

Pan y byddaf, weithiau, ar fy hynt, yn myned heibio yr hen anedd gyssegredig, y mae rhyw deimlad pruddaidd a torcalonus yn fy meddianu, wrth feddwl fod yr hen adeilad yn huno mewn llonyddwch, ac wedi bod, am amser cyn hyn, yn aneddle i lawer hen bererin duwiol i draddodi ei athrawiaeth. Gwahanol iawn yw trem ar yr hen Capel a'r fynwent yn awr, mewn cydmariaeth a phethau oeddynt, pan oedd rhai sydd wedi canu yn iach i'r llwch er ys talm, ac a orweddant yn dawel mewn cwr o'r fynwent heddyw, yn gweithio a'u holl egni i ledaenu ar hyd y gymydogaeth yr athrawiaeth bur ag a ddalient. A yw eu llafur yn ofer yn y diwedd? A oes neb o honom ni yn yr oes bresenol a geidw i fyny ffrwyth eu llafur? Yr ydym ni, yr Undodiaid, mewn rhyw ystyr, wedi cyrhaedd pinacl diofalwch mewn amgylchiadau o'r fath; yr ydym yn farwedd, ïe, a dioglyd hefyd, gyda'u cadw i fyny. Eisieu ysbryd newydd sydd arnom, ysbryd ag a wnaethai i ni weithio a'n holl egni, i gadw fyny ac i ledaenu ar hyd y byd, ein athrawiaethau pur. Gofynaf etto, a oes neb o honom a gymer y drafferth o *ddechreu*, gyda golwg ar gyweirio y Capel dan sylw? A oes neb *a* ddechreua? Yn awr, Mr. Golygydd, gan ofni fy mod wedi trosglwyddo ar eich gofod yn barod, mae yn rhaid i mi derfynu, gan roddi dymuniad taer, ïe, taer iawn hefyd ar i rai o'n gweinidogion, neu'n *laymen*, roddi un tro i'r olwyn, ac yna hi a â ym mlaen yn ddiammeu. O na bawn yn gweled dyben yr ysgrif hon wedi ei gyflawni yn fuan, a minnau yn

"Cael cyd-addoli gyda'r llu,
Yn Nghapel bychan Cwmmwrdu!"

C———. D. E.

[Y ffordd oreu i gyffroi'r olwynion yn y Cwmmwrdu fyddai i'r cyfeillion yno ffurfio pwyllgor, appwyntio trysorydd ac ysgrifenydd, a gwneuthur a allont o gasghad arianol yn gyntaf yn eu plith eu hunain. Wedi gwneuthur hyn, rhoddent wybod i'n henwad trwy gyfrwng yr YMOFYNYDD gynnyrch eu hymdrech. Yna os bydd eisiau cymmorth, yr ydym yn meddwl y gallwn addaw na fydd eu brodyr Undodaidd, nac yn *laymen* nac yn weinidogion, ddim yn ol o wneuthur eu rhan i'w helpu. Rhodded ein cyfeillion yn y Cwmmwrdu i ni brawf sylweddol yn gyntaf eu bod hwy eu hunain yn ddifrifol yn yr achos, a'u bod yn penderfynu mynnu adgyweirio

eu Capel ac adferu yr addoliad. Heb hyn ni fyddai gwiw i neb o bell gyfryngu yn y matter. Y mae yn wir y gall un dyn arwain ceffyl i'r dwr, ond ni all cant wneuthur iddo ufed oni fydd arno syched. Yn wir os bydd arno syched, â efe at y dwr ei hunan heb ei arwain na'i ddanfon. Dangosed cyfeillion y Cwmnwrdu fod arnynt hwy syched *am ddwfr y bywyd.* Gan nad faint o ddifatterwch crefyddol syud yn ein plith fel enwad, dangosent i ni nad o'u tu hwy mae'r difatterwch yn y matter hwn. Dysgwylwn, a byddai yn hyfryd gennym, glywed cyn bo hir oddiwrth ein cyfaill "D. E.", neu ryw un yn y gymmudogaeth, fod ein cyngor wedi cael gwrandawiad, a'u bod un ac oll yno wedi gosod eu hysgwyddau wrth yr olwynion.—Gol.]

Y Drindod.—Syr--Byddwch cystal a hepcor congl i'r sylwadau canlynol os gwelwch hwynt o werth. "Un corph sydd," medd yr Apostol, "ac un yspryd, megis ag y'ch galwyd yn un gobaith eich galwedigaeth; un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, un Duw a Thad oll, yr hwn sydd goruwch oll, a thrwy oll, ac ynoch oll" Eph. iv., 4—6. Cyffes ffydd yw hon llawer gwell nac a feddiodd ffolineb a rhyfyg dyn erioed ddyfeisio. Yn ofer yr ymdrecha Trindodiaeth wyrdroi meddwl eglur y geiriau hyn. Y mae'r Apostol trwy ddyweyd "un yspryd ac un Arglwydd," yn rhwystro i neb gyfle i wyrdroi y synwyr. Cystal fyddai dywedyd fod un corph, un gobaith, un ffydd, ac un beddyd, yn bersonau yn y Duwdod, a dyweyd fod yr un yspryd ac un Arglwydd felly, canys y mae yr un yspryd a'r un Arglwydd yn cael eu gwahaniaethu yn eglur oddiwrth yr un Duw a Thad oll; o ganlyniad nid all neb fod yn ogyfuwch ag Ef. Cyfarfyddir â'r gair Duw 1280 o weithiau yn y Testament Newydd, ac nid oes lle i ni ddeall fod yr ysgrifenwyr yn un man yn meddwl tri pherson yn y Duwdod. Dywed y Trindodwyr nad ydynt yn dal fod tri Duw, canys, meddant, y tri hyn un ydynt, ac mai dirgelwch annrhaethadwy yw'r undeb, tu hwnt i amgyffred dyn I hyn attebaf nad dirgelwch yw, ond mai gwrthdrywediad yw honni nad yw tri pherson dwyfol yn dri duw, canys beth yw person dwyfol ond ffordd oddi amgylch o gylch o ddyweyd Duw. Yr un peth sydd i ddeall wrth dri pherson dwyfol a thri Duw.

Y mae'r athrawiaeth o wahanol bersonau yn y Duwdod yn agored i'r canlyniadau mwyaf gwrthun a afresymol, canys gorfydd ar bawb o goleddwyr yr athrawiaeth hon addef i fod pob person ynddi a rhyw briodoledd yn perthyn iddo a'r nad yw yn perthyn i'r lleill—rhyw gynneddf wahanedig oddiwrth y lleill, onide ni allent fodoli yn dri pe na buasai gwahaniaeth rhyngddynt Y farn Drindodaidd yw, fod pob person yn yr hanfod neu y natur ddwyfol yn fod deallgar, hunanymddibynol, ac yn wahanol oddiwrth y ddau arall, a chanddo ryw briodoledd anghyfranogol, hynny yw fod, gan un person yn y Duwdod ryw gynneddf nad yw yn bosibl i'r llall gyfranogi o honi. Er siampl, dywedir mai cynneddf neu briodoledd anghyfranogol yn Nuw Dad yw ei fod yn anghenedledig, yr hon briodoledd nid yw yn perthyn i'r Mab nac i'r Ysbryd Glan, ond i'r Tad yn unig. Cynneddf neu briodoledd anghyfranogol yn y Mab yw ei fod genhedledig, yr hon nid yw yn perthyn i'r Tad nac i'r Ysbryd Glan, ond i'r Mab yn unig; a chan nad yw yn gyfranadwy, nid yw yn eiddo i neb ond efe. Y gynneddf neu y briodoledd anghyfranogol yn yr

Ysprvd Glan ydyw ei fod yn deilliaw oddiwrth y Tad a'r Mab, yn hon briodoledd nid yw yn perthyn i'r Tad nac i'r Mab. Tybir fod pob un o'r personau hyn yn hanfod yn y Duwdod, o ganlyniad mae pob un o'r priodoleddau a grybwyllwyd yn yr Hanfod Ddwyfol yn ddiammheuol. Y mae pob priodoledd yn y natur neu'r hanfod ddwyfol yn berffaithgwbl, neu mewn geiriau eraill, perffeithrwydd yw Duw. O ganlyniad mae gan bob un o'r bodau dychmygol hyn briodoledd berffaith nad yw yn perthyn i'r ddau arall, hynny yw, mae pob un o honynt yn ddiffigiol o ddwy gynneddf pa rai sydd ym meddiant y ddau arall. Nid yw, gan hynny, yn bossibl, i bob un o'r tri bod hyn fod yn wir neu berffaith Dduw, tra fyddo dau ammherffeithrwydd yn perthyn iddo, i'r naill a'r llall.

Os y dywedir y gwna y tri pherson y'nghyd i fynu y gwir Dduw rhyngddynt, yna daw y canlyniad gwrthun canlynol i'r amlwg, sef i fod y Duw anfeidrol yn cael ei wneyd i fyny o gymmysgedd perffeithrwydd ac ammherffeithrwydd, trwy fod pob un o'r personau mewn eisiau neu angen o ddau briodoledd ag sydd ym meddiant y lleill. Ond y mae hyn yn wrthun ac yn anghysson â hollol berffaith natur y gwir Dduw.

Yn wir, os dilynir yr ymresymiad mor belled ag y gellir, ymddengys fod sylwedd godidoccaf y Duwdod, hynny yw, y Duw byw ei hun, yn gynnwysedig o briodoleddau gwrthnebol, yn gymmaint ag fod un person yn genhedledig a'r llall yn anghenhedledig, un yn ddeilhedig ar ddau arall yn anddeilliedig, felly yn wrthwyneb i'w gilydd. Nid oes dim achos dyweyd, mae'r athrawiaeth yn un wrthun, a phe dilynid hi i'r eithafoedd, diweddai, yn ddiau, mewn infidelhaeth. Dyma duedd athrawiaeth y Drindod, sef creu anghredinwyr; ond faint o anghredinnaetn ac Atheistiaeth yr oes hon sydd yn olrenadwy iddi, ni chymmeraf arnaf i bendefynu. Un Duw a Thad oll, ac un Arglwydd Iesu Grist, yw athrawiaeth y Testament Newydd, a dyma'r Athrawiaeth Undodaidd. Pwy feiddia ddyweyd nad yw yn wir?

Blaengronw, Llanboidy. R.

Eisiau Esboniad Undodaidd o'r Beibl.—Anwyl Syr,—Goddefwch i mi drwy gyfrwng yr Ymofynydd i gydnabod yn ddiolchgar y Parch. T. Thomas, ac eraill, am eu sylwadau esboniadol yn eich misolyn gwerthfawr. Diau fod llawer o'ch darllenwyr, heb fy hunan, yn hoffi eu nodiadau. Eisiau mwy o'r cyfryw sydd arnom ni, Undodiaid Cymru, sef y dosbarth gweithiol o honom Gobeithio y parhânt i fyned rhag eu blaen yn eu sylwadau beirniadol. Os y gwnant, byddant yn sicr o wneuthur lles dirfawr i'ch darllenwyr, ac yn debyg o fod yn foddion i eangu cylchrediad eich cyhoeddiad.

Nid wyf yn gwybod am un esboniad cyflawn ar un o'r ddau Destament gan Undodiaid Cymru. Y mae rhai gan y Saeson mae'n wir, ond nid yw y Cymry fawr yn well o honynt, os dim. Y mae Undodiaid Cymru yn mhell ar ol yn hyn, fel ag yn llawer o bethau eraill. Y mae gan bob enwad o grefyddwyr braidd trwy Gymru eu hesboniadau er taenu eu hegwyddorion a'u golygiadau crefyddol ar hyd a lled y wlad; a pha mor bell y maent yn llwyddo yn hyn, barned y darllenydd. Ond beth am yr Undodiaid? Dim un aberth nac ymdrech wedi ei wneuthur er dwyn

drwy y wasg gymaint ag un esboniad Cymreig, o'r hyn lleiaf, nis gwn am dano. Y mae hyn yn sicr o fod yn golled ddirfawr i'r achos Undodaidd yng Nghymru yn gyffredinol. Byddai esboniad cyflawn ar y Testament Newydd, pa un bynag a'i gwreiddiol, cyfieithedig, neu dalfyredig; yn sicr o fod yn gaffaeliad anmhrisiadwy i Undodiaid Cymru. Y mae hwn yn fwlch ag y dylid o ddifrif i ymestyn am ei lanw. Pe gwnelai rhyw un, neu rai o weinidogion Cymreig yr Undodiaid ddwyn drwy y wasg esboniad ar y Testament Newydd yn rhanau, dyweder rhanau chwe' cheniog, neu swllt, credwyf y tröai yr anturiaeth allan yn llwyddiant perffaith. Byddai yn debyg o gael derbyniad helaeth a gwresog. Byddai hyn yn gam pwysig yn yr iawn gyfeiriad.

Y mae yn wir fod rhwystrau ar ffordd ein gweinidogion i ymgymeryd a'r gorchwyl, am eu bod yn ddieithriad braidd yn cadw eu hysgolion dyddiol, a dim rhyw lawer o amser i'w hebgor. Ond a ydyw y rhwystrau yn ormod, fel ag i'n hatal i gael esboniad Undodaidd yn ein hiaith ein hunain? Y mae gwir anghen am dano. Y mae hon yn ffaith nas gellir yn rhwydd ei gwadu. Gobeithio y cymer ein gweinidogion yr awgrymiad yma o'm heiddo at eu hystyriaethau yn garedig. Hyderaf y cymer rhyw rai galluocach na mi at y pwnc pwysfawr yma, gan wasgu yn ddwys ar feddwl ein gweinidogion yr angenrheidrwydd o gael esboniad at wasanaeth yr Undodiaid Cymreig. Mae y peth yn sicr o fod yn deilwng o sylw. Gan fawr obeithio y cymer rhyw rai yr awgrymiad yma at eu hystyriaeth y gorphwys eich gostyngedig was, UNDODWR.

OFFRYMAU INDIA ORLLEWINOL.

Y MAE y cynulleidfoedd negroaidd yn yr India orllewinol yn dlawd iawn; ond pan y mae casgliad yn cael ei wneud, y maent yn rhoddi yn dda; hynny yw, y maent yn rhoddi yn ol eu gallu, yr hyn nis gellir ddywedyd am y rhan luoscaf o gynulleidfaoedd Cymru a Lloegr.

Yn rhyw eglwys neillduol yn y rhan hyny o'r byd, yr arferiad yw myned oddi amgylch a basged yn lle plat neu flwch, am y gwyddys nad oedd gan y bobl arian. Beth maent yn roddi? Wyau. Y mae yr holl dlodion yn cadw creaduriaid plufog *(poultry)* yr hyn ellir wneuthur yn ddidraul, ac y maent bob amser, yn cadw stoc dda o wyau. Gan na allant rhoddi ond yr hyn sydd ganddynt, y maent yn myned a'u hwyau i'r eglwys, ac yn eu gosod yn y basged fel eu hoffrwm i Dduw.

Y mae yr wyau hyn yn cael eu danfon i'r farchnad i'w gwerthu, ac fynych iawn y maent yn gwneud i fynu y swm o dair i bedair punt.

Ychydig flynyddau yn ol cyfarfu eglwys neillduol, oll yn ddu, yn yr India orllewinol, ond yr oedd rhai o honynt mewn gwell amgylchiadau nag eraill i benderfynu ar y moddion, neu y ffordd fwyaf effeithiol, i wneud casgliad da y Sul canlynol. Darfu iddynt fabwsiadu tri penderfyniad.

1. Fod pawb i rhoddi rhywbeth;

2. Fod pawb i rhoddi yn ol eu gallu;
3. Fod pawb i rhoddi yn ewyllysgar.

Pan ddaeth y Sul, gosododd y gynulleiddfa, fel ag yr oedd yn myned allan, ei gwahanol gyfraniadau ar y ford, tra yr oedd yr ysgrifenydd yn cymeryd sylw ar yr oll. Gwnaeth y cinogau a'r sylltau swm bur fawr. Daeth un o'r blaenoriaid yn mlaen—y mwyaf cybyddlyd, ond y mwyaf cyfoethog a balch yn eu plith—at y ford, a gosododd swllt i lawr.

"Cymerwch hi yn ol, cymerwch hi yn ol," ebe'r ysgrifenydd. "Nid yw hyna yn ol yr ail benderfyniad; yr ydych chi yn alluog i roddi mwy na swllt." Gan i hyn ddigwydd o flaen yr holl bobl, gyrwyd y rhoddwr allan o dymber dda, a gosododd bedwar swllt yn ychwaneg i lawr, gan lefain, "Cymmerwch bum swllt ynte, os ydych yn eu hymofyn"

Ysgrifenydd: "Drwg iawn gen i, nis gallwm eu cymeryd yn awr; nid yw yn unol ar trydydd penderfyniad."

Yr oedd y dyn, yn awr, wedi ymgynddeiriogi i'r eithafion, a chan gymeryd ei arian, haerodd na roddai ddim o gwbl. "Y mae yn rhaid i chwi." "Nid yw hyny (sef peidio roddi) ddim yn unol ar penderfyniad cyntaf." Felly aeth yn ol, a'i esgudiau yn cracian yn uwch nag erioed, i'w sedd ac arosodd yno hyd nes i'w dymmer oeri, pan ddaeth yn mhlaen at y ford, ac mewn modd gostyngedig gosododd bum swllt i lawr, y rhai a derbyniwyd yn awr. W.

Nodau y gwir Gristion.—Diammmeu y tebyccaf i Grist ydyw pa le bynnag y mae. Nid yr hwn sydd yn edrych ar ei les ei hun yn flaenaf, ac ar bawb a phob peth arall braidd islaw ei sylw; ond yr hwn sydd yn caru y gwirionedd fel yr oedd yn yr Iesu. "Darperwch bethau onest yn ngolwg pob dyn, ac felly cyflawnwch gyfraith yr Iesu." Beth bynag gymmero y gwir Gristion mewn llaw, mae ei ddymuniad yn dda i'w ddwyn oddiamgylch yn ostyngedig, cywir, a chyfiawn. "Yr hwn a ddarostyngo ei hun a dderchefir." Mae'r gwir Gristion a'i awyddfryd yn yn bennaf am gyfiawnder, a dyfod i fwy o adnabyddiaeth o'i Dad Nefol, a'r hwn a anfonodd Efe, sef Iesu Grist, am ei fod yn cael, trwy'r Efengyl sydd wedi ei ddatguddio iddo, mai hynny yw y bywyd tragwyddol. "Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder, canys hwy a ddiwellir." Mae'r gwir Gristion, er y dichon iddo gael ei erlid a'i wawdio, yn cyfodi ei groes ac yn canlyn yr Iesu. Edrych ym mlaen a llygad ffydd ar yr amser dedwydd hwnw, pan y bydd iddo gael medi o ffrwyth ei lafur a'i ymdrech yn y byd presenol. "Gwyn eu byd y rhai a erlidir o achos cyfiawnder, canys eiddynt yw teyrnas nefoedd." Mae'r gwir Gristion yn dangneddefus a maddeugar yn rhodio llwybrau rhinwedd. Nid ydyw yn talu drwg am ddrwg, ond fel ei Athraw Bendigedig, Iesu Grist, yn gwneuthur i eraill fel y dymunai i eraill wneuthur iddo yntau. "Oblegid os maddeuwch i ddynion eich camweddau, eich Tad Nefol a faddeu hefyd i chwithau." Mae'r gwir Gristion yn meddu ar gariad brawdol yn helaeth. Mae yn ymhyfrydu yn nedwyddwch ei gyd-ddyn. "Yr hwn sydd yn caru ei frawd, o Dduw y mae, oblegyd Duw, cariad yw." Mewn gair, ymgais parhaus y gwir Gristion ydyw bod yn feddianol

ar y grefydd bur hono a'i gwna yn ddedwydd am amser a thragwyddoldeb. Mae efe yn credu "farw'r Iesu a'i adgyfodi, felly y rhai a hunasant yn yr Iesu a ddyg Duw hefyd gydag ef."

"Nid aiff yr aflan byth i'r nef,
Mae'r wlad yn groes i'w anian ef;
Y dwylo glan a'r galon bur,
A seilia dy ar Salem dir." J. J.

Yn y dewisiad o wraig, edrychwch allan am ferch ufudd i fam dda.

Dywedai Themistocles, fod yn well ganddo fe roddi ei ferch i ddyn heb gyfoeth, nac i gyfoeth heb ddyn.

Beth ydyw hanes dyn—geni—byw—marw;
Gadael y tawel draeth am y mor garw;
Ymdrech â gwyntoedd chwyrnion dymhestloedd;
Diange yn ddiogel i hafan dawel—hafan o hedd;
Angori'n ddiogel yn hafan dawel—hafan y bedd.

I BLANT YR YSGOL SABOTHOL.

Ni gymmerwn yn ganiataol eich bod erbyn hyn wedi darllen drosodd yn fanol lyfr Ruth, y'nghyd a'n sylwadau ni arno. Dau lyfr Samuel yw'r nesaf. Mae yn ammhosibl penderfynu pwy yw eu hawdwr. Nid oes dim ammheuaeth nad ydynt yn ben iawn. Galwyd hwynt ar enw yr hen prophwyd oherwydd, naill a'i meddylid mai efe yw'r awdwr, neu ynte am mai efe yw y person mwyaf nodedig yn yr hanes.

Y farn fwyaf cyffredin yw, mai efe yw awdwr y pedair pennod ar hugain gyntaf yn y llyfr cyntaf, ac i'r rhan olaf o hono, y'nghyd a'r ail, gael eu cyfansoddi gan y prophwyd Gad a Nathan, yn ol arfer y prophwydi i ysgrifenu hanes eu hamseroedd.

Cynnwysa y llyfr cyntaf hanes y genedl dros 116 o flynyddau, sef o enedigaeth Samuel yn y flwyddyn 1171 cyn Crist, hyd y flwyddyn 1055.

Er mwyn i chwi ei ddarllen yn drefnus yn yr ysgol, ni osodwn gynnwysiad y ddau lyfr o'ch blaen yn gryno fel y canlyn, fel y galloch ddarllen pob rhan ar ei ben ei hun, a chael y synwyr yn gyflawn:—

Rhan I.—*Digwyddiadau tan lywyddiaeth y barnwr Eli* (Pen. i.—iv), cynnwys y rhan hon:—

1. Genedigaeth Samuel (i.) a chân Hannah ei fam (ii.)
2. Galwad Samuel, ei weledigaeth y'nghylch Eli, a'i sefydliad yn y swydd brophwydawl (iii.)
3. Marwolaeth Eli, a daliad yr arch gan y Philistiaid (iv.)

Rhan. II.—*Hanes yr Israeliaid tan lywyddiaeth Samuel* (Pen. v.—xii.) cynnwys y rhan hon:—

1. Dystryw y ddelw Dagon (v.); ceryddu y Philistiaid, dychweliad yr arch, a lladdfa gwyr Bethsemes am edrych ynddi (vi.)

2. Diwygiad yn yr addoliad crefyddol ac edifeirwch yr Israeliaid yn Mizpeh, y'nghyd a gorchfygiad y Philistiaid (vi.).
3. Yr Israeliaid yn deisyf am frenin, a Saul yn cael ei appwyntio (viii., ix.); ei urddiad (x.); a'i fuddugoliaeth ar yr Ammoniaid (xi.).
4. Samuel yn rhoddi ei swydd i fynu (xii.).

RHAN III.—*Hanes Saul a'r pethau a gymmerasant le yn ysbaid ei frenhiniaeth, yr hon a barhaodd ddeugen mlynedd* (xiii., xxxi). Cynnwys y rhan hon :—

1. Y rhan lwyddianus o deyrnasiad Saul, yn cynnwys ei ryfel â'r Philistiaid, a'i waith yn aberthu (xiii.); y'nghyd a'i fuddugoliaeth arnynt (xiv.).
2. Yn cael ei wrthod o'r frenhiniaeth oherwydd iddo anufyddhau y gorchymyn dwyfol yn ei waith yn arbed brenin Amalek, a'r rhan oreu o'r ysbail (xv.).
3. Urddiad Dafydd a'r pethau a ddigwyddasant cyn marwolaeth Saul (xvi——xxviii.); yn cynnwys,
(*a*). Eneinio Dafydd (xvi.); ei ymdrech â Goliath, a'i fuddugoliaeth arno (xvii.).
(*b*). Erledigaethau Dafydd gan Saul; ei alltudiaeth a'i gyfamod â Jonathan (xviii.); yn dianc rhag Saul (xix.); ei gyfeillgarwch â Jonathan (xx.); yn myned i Nob, b'le y darfu iddo ef a'i wyr fwyta o'r bara gosod; yn dianc etto, yn gyntaf at Achish brenin Gath, ac wedi hynny i dir Moab (xxi., xxii., 1—4); yr offeiriaid yn Nob yn cael ei lladd ond Abiathar (xxii., 5—23).
(*c*) Gwaredu tref Ceilah gan Ddafydd (xxiii., 1—6); efe yn ffoi i anialwch Ziph a Moan (xxiii., 7—29); bywyd Saul yn llaw Dafydd yn Engedi yr hwn sydd yn ei arbed (xxiv.); ymddygiad taeogaidd Nabal (xxv.); bywyd Saul yn cael ei arbed yr ail waith (xxvi.); Dafydd yn dianc yr ail waith at Achish (xxvii.).
4. Gorchwylion diweddaf Saul hyd ei farwolaeth (xxviii.—xxxi); yn cynnwys,
(*a*) Saul yn ymgynghori â'r ddewines yn Endor (xxviii.).
(*b*) Gwersylliad y Philistiaid yn Aphec; hwy yn danfon Dafydd yn ol o'u byddin (xxix.).
(*c*) Dafydd yn ymlid ac yn gorchfygu yr Amaleciaid y rhai oeddynt wedi ysbeilio Siclag, an yn cymmeryd oddi wrthynt yr ysbail (xxx.).
(*d*) Hunanladdiad Saul, a'r Israeliaid yn cael eu gorchfygu yn drwyadl (xxxi.).

Dyma gynhwysiad y llyfr cyntaf. Dichon mai y path mwyaf teilwng o'n sylw yn y llyfr hwn yw ymgyfarfod Saul â'r ddewines yn Endor. Am hynny, caniatewch i ni wneuthur ychydig o sylwadau arno. Mae'r hanes yn yr wythfed bennod ar hugain. Darllenwch hi yn bwyllog.

Meddylia rhai mai chwedl ydyw. Mae yn anmhosibl, meddant, fod y peth yn wir. Dichon mai gwneuthur haeriad cryf o'r fath hyn yw y ffordd oreu i gael gwared o anhawsderau yn y Beibl, ond yn sicr, nid y ffordd fwyaf boddhaol. Ond pa fodd bynnag nid ydyna ni yn gallu cael gwared o anhawsderau yn gwbl mor rhwydd.

Eraill ydynt o'r farn mai hudoliaeth oedd y cyfan. Cael eu hudo wnaeth Saul, meddant, gan gyfrwys gelfyddid y ddewines. Credant mai *ventriloquist* ydoedd hi, neu un o'r cytryw a fedrant hudo y gwyddfodolion â'n llais, fel y meddyliant mai un arall sydd yn llefaru, ac nid y *ventriloquist*. Felly y perodd y ddewines i Saul gredu mai Samuel oedd yn llefaru, er mai hi mewn gwirionedd, oedd yn efelychu ei lais. Nid ydym ni yn gallu cymmeradwyo yr esbonnad hwn ychwaith, oblegid cantyddwn fod gormod o resymau yn yr hanes yn ei erbyn. Nid ydym yn amheu nad oedd bwriad gan y ddewines i hudo Saul, oblegid dewines oedd hi.

Addefwn yn rhwydd y gallasai hi efelychu llais a desgrifio gwisg y prophwyd, oblegid dichon ei bod hi yn ei adnabod yn amser ei fywyd. Er hynny, y mae rhyw beth i ni yn dra hynod yn y ffaith iddi ddigwydd cryb wyll y FANTELL, sef y fath wisg â'r un ag a afaelodd Saul ynddi pan ymadawodd y prophwyd ag ef am byth (xv). Nid oes dim amheuaeth na wnaeth ymddangosiad allanol y prophwyd argraff ddofn ar feddwl y brenin mewn amgylchiad mor gyffröus, oblegid dyna'r pryd yr hysbysodd y prophwyd iddo ddarfod i'r Arglwydd ei fwrw ymaith o fod yn frenin am ei anufudd-dod yn cadw Agag, brenin Amalec, yn fyw, a'r goreu a'r brasaf o'r anifeiliaid. "A phan drodd Samuel i fyned ymaith, efe (Saul) a ymaflodd ynghwr ei fantell ef, a hi a rwygodd." Yr un fath wisg oedd am y prophwyd yn awr pan yn mynegu i'r brenin fod amser cyflawniad y ddedryd a draddododd arno y pryd hwnnw, wedi dôd. Ymddengys i ni, gan hynny, fod rhyw beth yn rhagor na digwyddiad yn nesgrifiad y ddewines, "Gwr hen sydd yn dyfod i fynu a hwnnw yn gwisgo MANTELL.

Y'mhellach, onid yw y prophwyd yma yn defnyddio yr un geiriau a ddefnyddiodd pan y rhwygodd Saul ei fantell? "Yr Arglwydd a rwygodd frenhiniaeth Israel oddiwrthyt ti heddyw, ac a'i rhoddes i gymmydog i ti." Dyna ei eiriau y pryd hwnw. Ei eiriau y tro hwn ydynt, air y'ngair yr un peth, "Canys yr Arglwydd," medd efe, "a rwygodd y frenhiniaeth o'th law di, ac a'i rhoddes i'th gymmydog, Yn awr, os hudoliaeth oedd y cyfan, peth rhyfedd i'r ddewines *hitio* ar eiriau y prophwyd ei hun! Ymddengys i ni fod rhywbeth yn neillduol yn y gair *rhwygodd*, yn yr Hebräeg, *vay-yik-rang*. Onid oes yma gyfeiriad at rwygiad hen fantell y prophwyd ag oedd yn awr etto o flaen llygaid Saul? Os digwyddiad oedd hyn, dywedwn ei fod yn ddigwyddiad gwyrthiol, os nid anghymwys y gair.

Teilwng yw sylwi hefyd na chafodd y ddewines ddim amser i wneuthur paratoiadau at gyflawnu ei swyn-gyfaredd. Nid ymddengys oddiwrth yr hanes y gwyddai fod Saul yn bwriadu dyfod i ymweled â hi. Hefyd, cynted ag y dywedodd Saul wrthi, *Dwg i mi Samuel i fynu*, yr oedd Samuel o'i blaen. Ni chafod amser i fyned trwy un math o swynion, fel y mae yr arfer gan ddewiniaid. Y casgliad naturiol yw i'r weledigaeth gymmeryd lle yn hollol annibynnol ar swynion y ddewines.

Dywed yr hanes hefyd iddi *lefain a llef uchel;* hynny yw, perodd y weledigaeth ddychryn iddi, oblegid yr oedd yr olygfa yn beth hollol annisgwyliadwy. Meddylia rhai mai llefain wnaeth rhag ofn Saul—gelyn y dewiniaid—wedi iddi adnabod mai Saul ydoedd. Ond pwy bynnag a ddarllen yr adnod yn bwyllog, a wel oddiwrth gyssylltiad y frawddeg, mai llefain wnaeth mewn braw oherwydd y weledigaeth.

Ond y peth mwyaf nodedig yn yr hanes yw rhagfynegiad y prophwyd; *y foru byddi di a'th feibion gyda mi.* Nid geiriau tywyll, daufeddyliog, ydyw y rhai hyn, fel oraclau y dewiniaid ac offeiriadesau paganaidd. Nid oes yma ddim amheuaeth. *Y foru* ydyw yr amser, ac *y foru* y digwyddodd. Lladdodd y Philistiaid ei dri mab, a syrthiodd yntau ar ei gledyf. Yr awr, gofynwn, os hudoliaeth oedd y cyfan, pa fodd y daeth y ddewines i wybod y buasai Saul farw *y foru?* Er fod byddinoedd y Philistiaid yn barod ar y maes, ac wrth bod tebygolrwydd yn rhy gryf

i'r Israeliaid, yn awr yn amddifad o'r nerth Dwyfol, y mae damweiniau rhyfel mor amrywiol ac anwadal, fel nas gall neb, byddent mor gyfrwys ag y bont, ragfynegu beth all ddigwydd i neb mwy na'u gilydd mewn brwydr. Dichon y gellir weithiau fwrw amcan pwy ochr faedda; ond peth gwahanol iawn yw hynny i ragfynegu beth a ddigwydd yn y frwydr i bersonau neillduol. Nid peth ammhossibl, yn wir, peth digon tebyg yw, y gall un gael ei ladd, ond y mae cannoedd yn dianc. Mewn gair, nis gall neb ddyweyd ym mlaen llaw beth ddigwydd i un mewn brwydr.

"Ond onid dewines ydoedd," meddech, "ac fel y cyfryw gallasai ragddyweyd beth ddigwyddai i Saul." Attebwn, os oes gallu gan ddewiniaid i brophwydo, peth eithaf rhesymol fyddai priodoli i'r un gallu dewinawl bob gwyrth a phob prophwydoliaeth yn yr Hen Destament a'r Newydd.

Yr ydym ni yn rhwym gan hynny o addef fod llaw Duw yn amlwg yn y peth a gymmerodd le. GWYRTH YDOEDD. Beth oedd ei dyben, nis gallwm ddyweyd, oblegid y mae'r hanes yn rhy fyr i ni allu amgyffred yn iawn yr amgylchiadau oedd Saul ynddynt ar yr amser. Pe byddai yr hanes yn gaflawnach, tebygol y buasai dyben y wyrth yn fwy amlwg.

Yn olaf, nid ydym yn ystyried fod y ffaith i'r wyrth gael ei chyflawni trwy gyfryngdod y ddewines yn un rheswm nad gwyrth ydoedd. Nid ein ffyrdd ni yw ffyrdd yr Arglwydd, na'n meddyliau ni yw ei feddyliau ef. Pan ddanfonodd y brenin Ahaziah (II. Bren. i. 2—4) ei weision drosto i ymgynghori â Baalzebub, eilun-dduw Ecron, y'nghylch ei wellhâd, darfu i'r Arglwydd trwy y prophwyd Elias i gyfryngu, a rhoddi atteb i genhadau y brenin. Nid annhebyg yw'r amgylchiad hwn i Saul a'r ddewines. Hefyd, os ydych yn cofio, gorfu ar Balaam (Num. xxiii.) fendithio Israel pan daeth allan gyda Balac brenin Moab, i'w melldithio, yn ol dymuniad y brenin. Paham, gan hynny, na wnai yr Arglwydd ddefnydd o'r ddewines i geryddu Saul, yr hwn oedd wedi pechu yn ei erbyn? Mae yn sicr fod y drwg fel y da yn fynych yn foddion yn ei law ef i ddwyn ei ddybenion daionus i ben.

Wele yn canlyn attebion i'r gofyniadau ysgrythyrol yn Rhifyn Mehefin, ynghyd ag ychydig o ofyniadau ychwanegol.

ATTEBION.

1. Eppil Jonadab, Jer. xxxv. 6.; Gwr Duw o Judah, 1 Bren. xiii. 8; Daniel, Dan. i. 8; a Pedr, Actau x. 22.

2. Gweithwyr y deml yn nheyrnasiad Joas, 2 Bren. xii. 15; a'r gweithwyr yn nheyrnasiad Josiah, 2 Bren. xxii. 7.

3. Joseph, tad yr Iesu, Matt. i. 19; Zacharias ac Elizabeth, Luc. i. 6; Simeon, Luc ii., 25; Joseph o Arimathea, Luc xxiii. 50; Nathaniel, Ioan i. 47; Nicodemus, Ioan vii. 61; Cornelius, Actau x. 22.

4. Actau xx. 19; xxiii. 1; xxiv. 16; Rhuf. ix. 1; 2 Cor. iv. 2; vii. 2; 1 Thess. ii. 4.

5. Jacob, Gen. xxxi. 38—42; Joseph xxxix. 5, 6; Daniel, Dan. vi. 4.

6. Samuel, 1 Sam. xii. 1—4.

7. Ymddygiad onest Dafydd at Nabal, 1 Sam. xxv. 21.

8. Achis brenin y Philistiaid, 1 Sam. xxix. 6.
9. Job, Job xxiii. 10—12; Moses, Num. xvi. 15; Paul, Actau, xxv. 10, 11.

GOFYNIADAU.

1. Enwch frenin trwy ffolineb yr hwn flynyddau ar ol ei farwolaeth y daeth adfyd ar ei deyrnas.
Enwch wr duwiol mewn adfyd yr hwn ni chafodd gyssur gan ei gyfeillion.
3. Pwy ddygodd arno ei hun adfyd oherwydd ei drachwant?
4. Pwy frenin ddygodd adfyd ar ei bobl trwy ei falchder cyndyn?
5. Enwch bedwar o wyr duwiol a waredwyd o adfyd trwy weddi.
6. Rhoddwch engraifft o weddi gwr duwiol mewn poen corphorol ddim yn cael ei hatteb.
7. Rhoddwch engraifft o adfyd a phoen yn diweddu mewn llwyddiant bydol.
8. Enwch gyfyngder er mwyn profi ffydd yn diweddu yn fendithiol.

Yn ddiweddaf, os nad ydym yn anghofio, addawsom stori i chwi ys dau fis yn ol. Mae gennym ychydig amser y tro hwn, beth nad oedd gennym y pryd hynny, ac ni adawn i gyfaill i'r YMOFYNYDD i'w hadrodd fel y canlyn:—

Yr oedd tad â'i fab bychan yn cyd-gerdded i waered i un o heolydd ein trefydd bychain, (ni wnaeth pa un) ac yn ymddiddan efo'u gilydd. Safasant ar gyfer baich o wellt oedd yn gorwedd wrth ddrws siop. Aeth y tad i fewn a dywedodd wrth y siopwr

"Nid wyf fi yn gwstwnmydd profiddiol iawn, syr, ond a wnewch chwi ganiatau i mi un gwelltyn o'r tu allan."

"Cewch, siwr, cewch siwr," oedd yr atteb, "a groesaw."

"Yr oeddwn yn ceisio rhoddi gwers ar wenith i'm bachgen bach," ebe'r boneddwr, "ond yr oeddwn yn methu yn lân ei osod i ddeall swt y daw'r gronyn gwenith i'r dywysen; gwna'r gwelltyn yma fy helpu yn fawr i egluro'r wers."

Dylai pobl fechan gymmeryd gwers oddiwrth ymddygiad y boneddwr uchod. Dengys gwelltyn pa fodd mae'r gwynt yn chwythu. Y pethau bychain ydynt y prawfiadau o gywirdeb ac onesrwydd. Edrycher i ba gyfeiriad y mae y rhai hyn yn tueddu. Y mae o gymmaint pwys i fod yn onest yn y pethau bychain ag yn y rhai mawrion. Y mae yn ddyledswydd hefyd. Yr hwn sydd ffyddlon yn y lleiaf a fydd ffyddlon hefyd yn y mwyaf. Pan byddwy'n gweled bachgen yn cymmeryd cneuen o'r llestr tra fyddo'r siopwr am foment wedi troi ei gefn, rwy'n meddwl rwyngwy' a'm hunan, y gwnai'r bachgen yna lanw ei boced pe cawsai ond y cyfleu. A phan y byddwyf yn gweled crwtyn neu groten yn cymmeryd rhywbeth oddi ar y ford neu o'r cwpwrdd, neu ynte yn lladrata cwlffyn a fara cwtens amser y te parti, yr wyf yn meddwl ynof fy hun, 'dallwn i ddim a thrysto y crwtyn neu'r groten yna. Dyma fel y mae'r gwelltyn yn dangos ffordd mae'r gwynt yn chwythu. 'Rwy'n cofio am yr hen ddiareb oedd gan ein teidiau, "A ddyco'r wy a ddwg a fo mwy." Fe dyf y drwg bychan yn ddrwg mawr. Aiff y drwg bychan o hir arfer yn

reddf, fel y bydd yn anhawdd ei atal, "A wreiddio mewn drygioni, anhawdd fydd ei gynghori." Gocheler y drygau bychain. Y mae pob drwg bychan megys edefyn bychan i gymeryd y gydwybod yn gaeth. "Cadarnach yw'r edau yn gyfrodedd nag yn ungorn." O edefyn i edefyn y rhwymir yr enaid i lawr, ac wrth bob edefyn y mae angor, fel y gafaelir yn sicrach sicrach o hyd. Blant bach, ffowch oddi wrth bob drwg. Peidiwch a dechreu gyda'r drwg. Os yw'n felus i'r edrychiad, mae'n siwr o droi'n wenwyn marwol yn y pen draw. Peidiwch chwareu ag ef, neu mae'n sicr o'ch trechu. Peidiwch dweyd, "Tw, tw, dyw e ond peth bach," oblegid o bethau bychain y gwneir pethau mawrion. "O ddafan bach o ddwr, y gwneir y moroedd mawr, a'r mân ronyrau'n siwr, a ffurfiant ddaear lawr." Gofaler ynte bob amser, pa beth a wneir gyda golwg ar y pethau bychain. Y mae pob gweithred fechan yn myned i wneyd i fyny eich cymmeriad. Megys yr adeiladir tŷ wrth osod bricen ar ben bricen, felly yr adeiladir cymmeriad dyn. Mae holl weithredoedd bychain pob dydd yn helpu ei ran. Oh! gofaler, gofaler, ynte, pa fodd y gweithredir, fel y byddo'r adeilad yn un hardd a gorwych—adeilad o weithredoedd da wedi eu cyflawni yn ofn Duw. Gofaler bod yn deilwng o'r geiriau gwynfydig, "Buost ffyddlon ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer."

"Tri pheth a ddaw ar ddyn heb yn wybod iddo; cwsg, pechod, a henaint."

"Tri pheth a geir o hir ddilyn drwg; newyn, carchar, ac uffern."

SENEX.

TUBAL.—Mesur blwyddyn yw'r amser y mae'r ddaear yn myned trwy ei chylch oddeutu'r haul, hynny yw, 365 o ddiwrnodau, 5 awr, 48 munud, a $42\frac{7}{10}$ eiliad. Mae yn ofynol, er mwyn cyfrif, gwneuthur diwrnodau y flwydyn yn gyfain, oblegid byddai gosod 365, a rhan o ddiwrnod, yn beth anarferadwy. Er mwyn gochelyd yr anhawsdra, y drefn yw gosod y pum awr, &c., yn un swm i wneyd i fynu ddiwrnod bob pedair blynedd, yr hon a elwir "blwyddyn naid." Chwanegir y diwrnod at fis Chwefror gan osod ynddo, bob pedair blynedd, naw ar hugain yn lle wyth ar hegain o ddyddiau; ond gan nad yw 5 awr, 48 munud, a $49\frac{7}{10}$ eiliad, yn y flwyddyn yn gwneuthur 24 awr mewn pedair blynedd, yr ydys yn chanegu 44 munud, $41\frac{1}{5}$ eiliad yn ormod. Gwna hyn ddiwrnod a rhyw ychydig funudau mewn 134 o flynyddau. Am hynny trwy chwanegu diwrnod bob pedair blynedd, chwanegir diwrnod yn ormod bob 134 o flynyddau, a phan fyddo y gormodedd hwn wedi cynhyddu i naw neu ddeg diwrnod, mae yn llawn bryd eu symmud fel ag i gael y flwyddyn i atteb mor nesed ag y gellir, i gylchdro blynyddol y ddaear odeutu'r haul. Julius Cæsar oedd y cyntaf a wyddom ni am dano, i chwanegu diwrnod bob pedair blynedd. Daeth y dyn galluog hwnnw i wybodaeth lled gywir o hyd y flwyddyn trwy gynhorthwy un *Sosigenes*, athronydd o Alexandria. Cynghorodd yr athronydd Cæsar i orchymyn i un dydd bob pedair blyned gael ei chwanegu at y 365 o hynny allan. Felly y gwnaeth, a chafodd y dydd ei chwanegu at fis Chwefror trwy ddwblu y trydydd ar hugain, yn hwn a elwid gan y Rhufeiniaid *Sextilis* neu *chwechfed*, am mai y chwechfed dydd ydoedd cyn y cyntaf o Fawrth yn ol dull y Rhufeiniaid o gyfrif dyddiau'r mis.

Nid ymddengys i Cæsar osod i lawr un drefn gyda golwg ar y gormodedd pedair-blynyddawl, sef 44 munud a 41½ eiliad, os y gwyddai am dano. Byth oddiar amser Cæsar galwyd y pedwaredd flwyddyn *bissextilis* neu *dauchwechfed*, neu fel y galwn ni hi "blwyddyn naid." Fel y sylwasom yn barod, yn ol y drefn hon, y mae dyddiau y flwyddyn yn blaenu yn raddol ar amser cylchdro y ddaear, sef diwrnod bob 134 o flynyddau. Yn y flwyddin 1582 canfyddodd y Pab Gregory, trwy gynhorthwy rhai o ddysgedigion ei oes, fod yr haul, y flwyddyn honno, ar y cyhydedd ar yr unfed dydd ar ddeg o Fawrth, a'i fod yr un man yn y flwyddyn 325, pan gynhaliwyd cymmanfa *Nicea*, ar yr unfed dydd ar hugain o'r mis hwnnw, hynny yw, yr oedd y 44 munud a 41½ eiliad wedi cynhyddu i ddeg diwrnod yn y cyfamser. Yr oedd yn llawn bryd yn awr i symmud y dyddiau, ac i'r dyben hynny rhoddes y Pab orchymyn ar i'r pumed o Hydref y flwyddyn honno gael ei alw y pumthegfed, ac hefyd yn gymmaint ag i fod y 44 munud a 41½ eiliad yn gwneuthur tri diwrnod bob pedwar can mlynedd, gorchymynodd na fyddai i'r canrifoedd (1700, 1800, 1900, 2100, &c.), na ellir eu rhanu â 4, sef 17, 18, 19, &c., ynddynt, heb adael gweddill, gael eu hystyried yn *bissextilis*, neu yn "flwyddyn naid" fel y dywedwn ni. Yr un peth yw hynny a symmud tri diwrnod bob pedwar can mlynedd. Mae 2 awr, 28 munud, 40 eiliad, etto yn ragor mewn pedwar can mlyned na 24 awr; ond gan na chynydda hyn ddim llawer dros 7 awr mewn deuddeg cant o flynyddau, nid oes dim sylw yn cael ei wneyd o hono. Darfu i'r gwledydd Catholicaidd oll ufuddhau i orchymyn Gregory, ond ni wnaeth y rhai Protestaniaidd felly. Ni symmudwyd y diwrnodau yn y wlad hon cyn y flwyddyn 1752. Y flwyddyn honno y "newidiwyd y *style*," fel y dywedir, pan oedd un diwrnod ar ddeg yn ormod yn y cyfrif. Passiwyd ysgrif yn y Senedd y flwyddyn honno i alw y trydydd o Fedi yn bedwarydd ar ddeg, a chan na chyfrifwyd y flwyddyn 1800 yn flwyddyn naid, y mae yn awr ddeuddeg diwrnod o wahaniaeth rhwng yr hen *style* ar un newydd. *Russia* yw'r unig wlad sydd o hyd yn cadw at yr hen *style*. Mae'r hen *style*, er hynny, mewn grym yn y *Treasury* yn y wlad hon hyd y dydd heddyw. A hyn yw'r achos nad yw *dividends* y *Consols* yn cael eu hystyried yn ddyledus cyn y deuddegfed o Ionawr a'r pumed o Orphenaf. Am nad oes gennym le i drafod y pwnc yn helaethach, nid oes gennym ddim ond gobeithio y gwna yr ychydig sylwadau eglurhaol hyn eich boddloni.

THEODORE, DIWEDDAR FRENIN ABYSSINIA.

Mae Theodore wedi marw. Mae'r holl garcharorion yn rhydd ac yn ddiogel, ac ar eu ffordd tua thref at eu teuluoedd, eu perthynasau, a'u cyfeillion. Mae pawb yn ddiau ond barbariaid, fel Theodore ei hunan, yn gorfoleddu yn yr amgylchiad hwn. Diolch i'r nefoedd am oruwchlywodraethu a darostwng cynddaredd y bwystfil creulon o Abyssinia. Clwyfwyd oddeutu deg o'r milwyr Prydeinig. Mae'r fyddin ar ei ffordd yn ol, a

llwyddiant dilys yn goron anrhydeddus ar ei phen. Nid oes un rhyfelgyrch wedi ei gofnodi ar dudalenau hanesiaeth filwraidd, wedi cael ei gychwyn gyda chymaint o hwyrfrydigrwydd a phryder, wedi ei gynllunio gyd â chymaint o ofal a manylrwydd, a'i orphen gyda chymaint o frys a llwyrder, â'r un sydd yn awr yn destun llawenydd ym mhob congl trwy Brydain Fawr. Gall Syr Robert Napier fabwysiadu geiriau Caesar gynt, "Daethum, Gwelais, Gorchfygais." Dydd Gwener y Groglith yr oedd y fyddin wedi cyrhaedd hyd o fewn i ddeg milldir i Magdala. Yr oedd Theodore a'i filwyr yn fintai luosog wedi ymsefydlu mewn lle manteisiol ar fan uchel, serth; a phan gwelodd y brenin y milwyr Prydeinig yn nesu, ymosododd arnynt, ond gyd a cholled ofnadwy iddo ei hun. Lladdwyd oddeutu 800 o'i wyr. Yn awr deallodd Theodore mae nid menywod oedd y Saeson, yn gwisgo dillad *crand*, fel yr oedd wedi bod yn ceisio argyhoeddi ei bobl ychydig amser cyn hynny, ond eu bod yn *stwff* lledd gyndyn i ymwneud a hwynt. Pan gwelodd Theodore ei fyddin yn tori i fynu dan yr *Armstrong Guns*, cynhyrfwyd yspryd gweddi o'i fewn; nid ydys yn gwybod beth oedd cynhwysiad ei weddi, ond yr ydys yn dyfalu. Wedi deall nad oedd bosibl cadw'r Saeson i ffwrdd, daeth yn fwy gostyngedig, a meddyliodd mai'r peth goreu iddo oedd gwneuthur heddwch â'r hen *fenywod* a'u twyllo i fyned tua thref os gallai. Gollyngodd yr holl garcharorion yn rhydd, ac anfonodd i lawr i'r gwersyll Prydeinig fil o ychain a phump cant o ddefaid. Nid oedd y Prydeiniaid yn foddlawn myned adref heb ryw beth yn fwy na hyn: —ni wnae llai y tro na rhoddi o Theodore ei hunan i fyny yn garcharor i ddwylaw Syr Robert Napier. Yr oedd yn anhawdd, ac yn rhy anhawdd gan y brenin uchelfrydig i wneuthur hyn. Gwaeddi *gildo*! Peth na wnaeth erioed ac na wnae byth. Tori cyn plygu oedd ei arwyddair. Mwy anrhydeddus a theilwng o'i fawrhydi fyddai marw yn rhyw lun nag ymostwng i gymaint o warth â hyn. Er fod ei filwyr wrth y miloedd wedi taflu eu harfau i lawr a ffoi am eu bywydau, etto Theodore, yng nghyd â rhai ffyddlonaf o'i fyddin, oeddent wedi penderfynu dal allan hyd y diwedd. Gweddient ac ymladdent, ymladdent a gweddient, ond nid oedd dim yn tycio. Yr oedd *Mars* wedi penderfynu rhoddi'r fuddygoliaeth i'r Prydeiniaid. O'r diwedd pan yr oedd pob gobaith wedi troi yn siomiant, a phan gwelodd Theodore ei fod ar fin cael ei ddal, efe a dywedodd wrth yr ychydig gyfeillion a ymlynent wrtho, "Ffowch am eich bywydau, mae'r cyfan ar ben; ac yn hytrach na syrthio i ddwylaw 'r creaduriaid yna, mi a saethaf fy hunan." Ar hyn gosododd ei lawddryll yn eu enau a darfu am frenin Abyssinia. Y mae ei wraig wedi hynny wedi marw o'r darfodedigaeth. Cyn gorphen yr erthygl bychan hwn nid allan o le fyddai ysgrifenu ychydig o hanes bywyd Theodore.

Ganwyd ef yn Tschergye oddeutu y flwyddyn 1821, yn nhalaeth Kuara, Abyssinia Orllewinol. Ei dad, dyn dinôd o'r enw Hailu Weleda Georgis, ac, yn ol fel y dywedid, o linach frenhinol tywysogion Ethiopia, a fu farw pan oedd Theodore yn ieuanc iawn. Nid oedd gan y fam a'r plentyn ond ychydig o feddianau'r byd i orphwys arnynt am eu cynhaliaeth, ac yspeiliwyd hwynt o'r ychydig oedd ganddynt gan rai o'u perthynasau gwancus cyn pen nemawr amser, fel nad oedd mwyach ddim i'w wneyd ond ymfrwydro modd y gallent â thlodi ac eisiau. Ei fam a aethai oddiamgylch

i werthu *Kosso*, meddyginiaeth rhag y *tapeworm*, math o lyngyr. Yn analluog i gynal ei phlentyn, llwyddodd i gael derbynnad iddo yn mynachlog Tschargar, ychydig filltiroedd i'r tu deorllewinol o Gondar. Yma y treulodd Kasso (Theodore), enw a gafodd oddiwrth waith ei fam yn gwerthu Kosso, gryn lawer o'i amser mewn gobaith, ryw bryd yn y dyfodol, i gyrhaedd safle uchel yn yr Eglwys. Ond un o *rebels* y wlad, o'r enw Dejatch Maron, a osodoud y mynachlog ar dân, eithr Kassa, yn ffortunus, a diangodd yn y nos i dy ei ewythr galluog, o'r enw Dejatch Comfu. Yn y ty hwn y cyfarfyddai llawer o *rebels* y wlad, yn anfoddion cu cyflwr, i ddyfeisio cynlluniau er cael eu hamcanion gwrthryfelgar oddiamgylch. Yma dan ddylanwad y fath gyfeillach y syrthiodd i Kassa mewn caraad penboeth â gorchestion peryglus ac antuniaethus y carnladron a ysbeilient y wlad ym mhob cyfeiriad. Ei ysbryd beiddgar a sicrhaodd iddo ffafr ei ewythr a'i ganlynwyr.

Yn amser ei arosiad yn y mynachlog, daeth Kassa yn adnabyddus â ffugchwedlau yr Eglwys, un o ba rai a gynhwysai y brophwydoliaeth a ganlyn: "Gwr galluog o'r enw Theodore, a gyfyd yn y Dwyrain, ac a ddystrywia ganlynwyr y gau brophwyd, a wared y Bedd Sanctaidd allan o feddiant yr Infideliaid, a lwyr ysguba y Mahometaniaid allan o'r tir sanctaidd, a ailsefydla deyrnas Judah yn ei mawredd cyntefig, a esyd i fynu y groes ar y deml, a dderbyn goron a theyrnwialen y Dwyrain, ac a deyrnasa mewn heddwch yn Jerusalem." Cymerwyd meddwl Kassa i fyny gymaint gan y brophwydoliaeth hon nes yr arweiniwyd ef gan ei benboethni i gredu mai efe oedd y gwr oedd wedi cael ei arfaethu i'w dwyn i gyflawniad. O hyn allan ni ellid cadw ei uchelgais o fewn terfynau.

Ar farwolaeth ei ewythr ymlynodd wrth gorph o garnladron oddeutu 70 mewn rhifedi, a buont yn ddychryn mid bychan i'r Mahometaniaid a fasnachent rhwng Matemma ag Abyssinia. Ac fel yr oedd ei ganlynwyr yn amlhau, dechreuodd beru gofid i'r awdurdodau a deyrnasent. Waiser Menen, mam Ras Ali, brenin Amhara y pryd hwnw, yn eiddigus o bawb a berient ei awdurdod, a anfonodd fyddin yn erbyn Kasa, ond yn ofer; oblegid efe a'i gorchfygodd yn rhwydd ac yn llwyr. Wedi methu trwy rym arfau, meddyliodd ei bod yn bosibl, efallai, ei orcnfygu trwy gyfrwysdra; ac felly, hi a gynnygiodd i Kassa yn wraig ferch landeg y tywysog Ras Ali. Ni amcanai Waisero hyn ond megis *bait* i'w gael i'r *trap*. Kassa a briododd y ferch, ac ar ol hyn a orchfygodd y frenhines a'i mhab, a chymerodd feddiant o'r taleithau y rhai hyd yma oeddent wedi bod dan lywodraeth Waisero a Ras Ali. Yr oedd Kassa erbyn hyn wedi dyfod mor alluog, fel y gorchfygodd y rhan amlaf o'r penaethiaid eraill; ac yn y flwyddyn 1855 coronwyd ef yn "Frenin Brenhinoedd Ethiopia," dan yr enw Theodore. Ar ol ei goroniad, trwy ormes o'r fath gaethaf, mewn cyssyiltiad â chyfrwysdra dial, a thrwy gynorthwy dau Sais, Mr. Bell a Mr. Plowden, cyrhaeddodd uwch safle a mawredd nag a gyrhaeddasid gan un o dywysogion Ethiopia o'i flaen. Ond ar farwolaeth y ddau sais uchod dechreuodd pethau droi yn eu gwrthol. Yr oedd Mr. Bell a Mr. Plowden, tra y buont byw, yn ei attal rhag cyflawni llawer o ddrygau a chreulonderau. Collodd Theodore hefyd ei wraig gyntaf, yr hon oedd yn anwyl iawn ganddo, ac ar gynghorion doeth a

hynaws yr hon yr oedd yn aml yn gwrandaw yng ngweinyddiad ei lywodraeth.

Colli cyfarwyddiadau y ddau Sais yng nghyd â chyfeillach a chyngorion ei wraig, a effeithiodd gymaint arno nes yr ymollyngodd i wrandaw ar gynghorion drwg, a chymeryd ei arwain ganddynt. Yr oedd ei gwymp yn agoshau. Trodd hefyd, meddir, yn anllad-ddyn o'r fath waethaf, ac yn anghenfilaidd o greulon, ail yn unig i frenin erchyll Dahomey. Mae rhai o'i weithredoedd diweddaraf yn cyfiawnhau y dyb hon am dano, sef tanio prif ddinas Gondar, yng nghyd â'r gyflafar o gau ugeiniau o fenywod mewn ty mawr, ac yn ei osod ar dân. Yn ei wersyll ei hunan llofruddiodd 670 o'i filwyr, trwy dorfynyglu rhai a saethu eraill o honynt â'i law ei hun. Gan i amryw yn ei fyddin encilio gosododd eu gwragedd a'u phlant i farwolaeth trwy eu llosgi mewn dillad cotwm wedi eu trochi mewn cwyr toddedig.

Nid oeddem ni yn ceisio ganddo wneuthur dim ond adferu Mr. Cameron, Mr. Rassam, y Parch. H. A. Shaen, a'r carcharorion eraill, y rhai yr oedd wedi eu cadw cyhyd mewn cadwynau, ac yr oeddem yn ceisio hyn yn y modd mwyaf cyfeillgar a didramgwydd. Blwyddyn yn ol yr oeddem yn anfon iddo anrhegion, a llythyron ysgrifenedig ar femrwm wedi ei baentio yn y modd mwyaf dangosiadus. Yn ein dymuniad i ochelyd rhyfel buom yn fwy ymarhous a thirion tuag atto nag y buasem wedi ymddwyn tuag at un o Ymherawdwyr neu Frenhinoedd y Cyfandir. Ond nid oedd modd i'w gael i *derms* heb anfon Syr Robert Napier i'w orfodi. Ni ysgrifenaf ragor rhag ofn, Mr. Golygydd, bod eich gofod yn brin.—

Yr eiddoch, &c.,

NEMO.

DAEARYDDIAETH PALESTINA.

PEN. III.—DYFFRYNOEDD A GWASTADEDD.

1. *Coele Syria.* Mae y dyffryn hwn yn gorwedd rhwng cadwyn Libanus ac Antilibanus. Enw diweddar, El-Becka, neu y Dyffryn. Mesurir oddeutu 90 milldir o'r gogledd i'r dê, a'i led yn gyfartal oddeutu 11 milldir. Yn y gogledd y mae fwyaf llydan, ac yn meinhau tua'r dê. Y mae y dyffryn hwn y mwyaf ffrwythlawn a phrydferth yn Syria. Y mae chan fawr o hono o dan driniaeth, ac yn cynyrchu cnydau rhagorol. Yn y merwydd (mulberries) yn helaeth yn y gogledd; ac y mae cynyrch y sidan-bryf (silkworm) yn ffurfio prif gyfoeth y Drusiaid.

2. Mae *Gwastadedd Jezreel* yn ymestyn o fynydd Carmel a'r Mor Canoldir tuar dwyrain i'r Iorddonen. Ei hyd o'r dwyrain i'r gorllewin sydd 30 milldir, a'i led oddeutu 18 milldir. Gelwir hwn wrth amrywiol enwau, megis Gwastadedd Esdraelon, Dyffryn Megiddo, y Dyffryn, a chan Josephus, y Dyffryn Mawr. Y mae yn cael ei amgylchynu gan fynyddoedd. O du'r gogledd gorwedd mynyddoedd Galilee; dwyrain, Tabor, Hermon, a Gilboa; de, mynyddoedd Ephraim; a gorllewin, Carmel. Gellir myned i fewn iddo o wastadedd yr Iorddonen trwy dri dyffryn, y

rhai ydynt yn cael eu rhanu oddiwrth eu gilydd gan fynyddau Hermon a Gilboa. Y dyffryn rhwng y mynyddau hyn ydyw dyffryn priodol Jezreel, er ymddengys fod yr enw hwn wedi cael ei roddi i'r holl wastadedd, rhwng yr Iorddonen a'r môr. Y mae yma dir da a chynnyrchol, pe buasai yn cael ei gwrteithio yn briodol. Yr oedd yma gynt gyflawnder o wenith, olew, gwin, a chynyrchon gwerthfawr ereill. Pan cafodd y wlad ei rhanu gan Joshua, syrthiodd y rhan hon, drwy goelbren, i Issachar; dywed Moses, mewn cyfeiriad at ei ffrwythlondeb, fod plant Issachar "yn llawenychu yn eu pebyll." (Deut. xxxiii. 18).

Mae y gwastadedd hwn yn enwog am yr amrywiol frwydrau â ymlladdwyd arno. Mae wedi cael ei alw yn "faes rhyfel y cenhedloedd." Yma gorthrechodd Gideon y Midianiaid; yma yr ymladdodd Saul ei frwydr ddiweddaf. Wrth ddyfroedd Megiddo y gorchfygodd Debora a Barak lu Sisera. (Barn. iv. 5). Ar y gwastadedd hwn bu Ahab a'r Israeliaid yn fuddygoliaethus ar y Syriaid o dan Benhadad (1 Bren. xx. 26—30); ac ar lan dyfroedd Megiddo y lladdwyd Josiah dduwiol gan saeth, pan yn ymladd yn erbyn Pharaoh Necho, brenin yr Aifft. (2 Chron. xxxv. 20—25).

Mae un awdwr yn cyfrif fod y gwastadedd hyn yn 15 milldir sewar; a dywed ei fod yn enwog er ys 3000 o flynyddoedd, fel maes rhyfel yr holl genhedloedd. Fod yr Assyriaid, y Persiaid, Iuddewon a Chenhedloedd, Rhyfelwyr y Groes, a Saraceniaid, Aifftiaid a Thwrciaid, Arabiaid a Ffrancwyr, wedi tywallt eu gwaed ar wastadedd Esdraelon.

3. *Gwastadedd yr Arfordir*, yr hwn sydd yn gorwedd rhwng y mynyddoedd a'r Mor Mawr, ac yn ymestyn ar hyd ei lan o'r parth deheuol o Palestina hyd fynydd Carmel yn y gogledd. Ar y rhan deheuol o hono yr oedd yn gorwedd bump o brif ddinasoedd y Philistiaid, sef Gaza, Ashdod, Gath, Ekron, ac Askalon. Yr oedd y rhan hono, ac oedd yn gorwedd rhwng Jaffa a Carmel, yn cael ei alw *Dyffryn Sharon*. Yr oedd y parth hwnw yn enwog am ei ffrwythlondeb, ac am ei borfa rhagorol (1 Chron. xxvii. 29; Esay xxxv. 2; a lxv. 10). Yr oedd yn enwog neillduol am ei rhosynau; mae Solomon yn sôn am "Rosyn Saron," (Cor. i. 1.) Mae llawer rhan o hono yn dangos nodau o'r ffrwythlondeb cyntefig, y dydd heddyw, ac y mae llawer parth o hono hefyd yn ymddangos braidd yn ddiffaethwch. Ceir arno lawer o Olewydd a choed ereill, ynghyd a heidiau aneirif o geffylau, defaid ac ychain. Y mae'r *melon* mo'r lluosog fel y gellir wneuthur masnach o honynt.

4. *Dyffryn Nablous*. Mae hwn yn rhedeg yn y cyfeiriad, gogledd-orllewinol, rhwng mynyddau Ebal a Gerizim. Yn y dyffryn hwn y mae'n sefyll, dref Nablous—Sichem yr Hên Destament, a Sychar y Testament Newydd. "Sichem yn ngwastadedd Moreb," lle'r estynodd Abraham ei babell gwedi myned i fewn i wlad Canaan. (Gen. xii. 6.) Y mae yn hynod gyfoethog a ffrwythlawn, glaswyrdd a phrydferth, yn llawn o ffynonau, y rhai ydynt yn rhoddi cyflawnder o ddwfr. Y mae'n llawn o elltydd o ffigys, *apricots*, *almonds*, ac olewydd. Mae Moses, ryw ychydig cyn ei farwolaeth, gwedi proffwydo am Joseph, fel hyn: "Ei dir ef fydd wedi ei fendigo gan yr Arglwydd, â hyfrydwch y nefoedd, â gwlith ac â dyfnder yn gorwedd isod; â hyfrydwch cynyrch yr haul, ac â hyfrydwch addfed ffrwyth y lleuadau." (Deut. xxxii. 13, 14.) Ac y

mae rhandir Joseph fyth yn ffrwythlawn; y goraf a'r prydferthaf o holl ddyffrynoedd y wlad.

Mae'r dyffryn hwn yn arwain i wastadedd bychan, ac sydd yn yr hâf yn cael ei orchuddio a chnwd o lafur; ac a feddylir mae y rhandir hono yw yr un a brynodd Jacob gan feibion Hamor, tad Sichem, am gan darn o arian, ac a'i rhoddodd i'w fab Joseph. (Gen. xxxiii. 19.) Yma yr anfonasai Jacob ei anifeiliaid i bori; a phan ar ymwelad i'r parth hwn y cafodd Joseph ei werthu gan ei frodyr i'r Ishmaeliaid. Yn Sichem y claddodd plant Israel esgyrn Joseph, y rhai a ddygasent i fynu gyda hwynt o'r Aifft. (Josh. xxiv. 32.) Mae adeiliad gwyn bychan, a elwir bedd Joseph, yn awr yn cael ei ddangos yn nyffryn cul Nablous, ac y mae yn cael ei barchu hyd y nod gan y Moslemiaid, lle y dywedir fod ei esgyrn wedi cael eu claddu.

Yn ngenau y dyffryn, gerllaw i'r ochr ddeheuol, y mae ffynon Jacob. Y mae'r trigolion yn awr yn ei galw hi "Es Samarieh," ffynon y wraig o Samaria, ac "Ain Yacoub," ffynon Jacob. Ar y ffynon hon yr eisteddodd ein Hiachawdwr, pan yn flinderog gan y daith, tra "yr aeth ei ddysgyblion i'r ddinas i brynu bwyd," ac yr ymddiddanodd ar wraig o Samaria. Yma y gwnaith yn hyspys yr athrawiaeth fawr, ac oedd i dynu lawr ganol-fur y gwahaniaeth rhwng yr Iuddew a'r Cenhedloedd; "Yspryd yw Duw, ac y mae yn rhaid i'r sawl a'u haddolant Ef, ei addoli mewn yspryd a gwirionedd." (Ioan iv. 24).

Priodwyd.

Mai 27, yn Llanwenog, Mr. James, o'r Clettwr, â Miss Hannah Jones, o Esgerlygoer.

Marwolaethau.

Mai 11, 1866, Mr. Evan Evans, Maesmynach, Ystrad, Ceredigion, yn 79 mlwydd oed.

Dysgu gwneyd da a'i wasgar—a hoffai,
Dyn craffus gwas'naethgar
O'i fodd oedd; un feddai ar
Duedd goreuon daear.

Un da fu bywyd Ifan,—un geirwir
Dyngarol ei amcan;
Cymerodd yn rhodd ei ran
O luniaeth nefol anian.

Da i ddyn oedd ei duedd ef—o'i fodd
Neb fyddai 'n dioddef—
A phob gradd wnai gyfaddef
Ifan o anian y nef.

Penybryn, Talsarn. JNO. JENKINS.

Ebrill 13, Elizabeth Jones, geneth fechan i John ac Elizabeth Jones, o Gwmybargoed, yn ddwy flwydd a naw mis, wedi bod yn nychu am y naw mis olaf. Claddwyd hi y dydd Iau canlynol yn mynwent yr Hên dy Cwrdd y Cefn, pan y gweinyddodd ar yr achlysur y Parch. B. Morris, Carmel, oddiar Salm xxxi. 15. Ymgysured ei rhieni yn y gobaith sydd ganddynt, trwy Grist, o gyfarfod a hi etto, pan y bydd yn iach oddiwrth bob dolur. D. J. JONES.

Mai 27, yn nny ei dad a'i fam, yn Aberamman, William Hughes, yn 26 oed. Adwaenid ef yn y cyffredin wrth yr enw "Wil Lewis Huw." Er yn ddiffygiol o ddeall ac yn analluog i wneuthur dim at ei gynnaliaeth, etto yr oedd pawb a'i hadwaenent ef yn hoff o hono. Yr oedd yr angladd yn un mawr iawn, a chredwn fod miloedd wedi ymgasglu ar hyd ochr yr heol i weled yr angladd yn passio, a mynych y clywid *Poor Wil* yn syrthio dros eu gwefusau. Yr oedd gan *Poor Wil* wyneb serchog bob amser. Hynodid ef am lawer iawn o bethau da. Un rhinwedd neillduol arno oedd onestrwydd. Llawer o ystoriau a adroddir gan ei gydnabod er dangos hyn. Nid oedd dim a'i tueddai i gymmeryd eiddo dyn arall. Yr oedd yn hoff iawn o'r bibell. Mewn ty un tro cynnygiwyd iddo ychydig dybaco gan y forwyn. Ni wnai Wil ei dderbyn, oherwydd nid hi oedd ei berchen. Yr oedd yn rhaid iddo ef ei gael o law y meistr, ac yna derbyniai ef. Mae lle i ofni fod llawer o wyr y pibau nad ydynt mor onest a Wil. Hir y pery coffa da am *Poor Wil.*

Mehefin 15, yn Montpelier, Ffrainc, Mary, trydedd merch y Parch. W. A. Jones, diweddar o Taunton, yn 16 oed.

Mehefin 19, yn y dref hon, ar ol hir a thrwm gystudd, Anne Jones, chwaer hunaf y diweddar Barchedig J. E. Jones, o Benybont, Morganwg, a'r Parch. W. A. Jones, diweddar o Taunton.

Mehefin 15, yn Tymawr, Talsarn, Ceredigion, Rachel, anwyl briod Mr. Daniel Richards, ar ol byr ond trwm gystudd o'r parlys, yn 44 mlwydd o'i hoedran, gan adael priod ffyddlon a chwech o blant bychain i alaru am eu colled anadferadwy. Y mae enw Mrs. Richards yn berarogl yn y gymydogaeth. Yr oedd yn un o ragorolion y ddaear. Yr oedd iddi air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun. Yr oedd ei thymer hynaws, mwynaidd, a thirion wedi enill iddi lu mawr o gyfeillion mynwesol. Cafodd tylodion Trefilan, a'r amgylchoedd, golled nid bychan yn ei symudiad o dir y byw. Cyfranai bob amser i'r gwir deilwng gydâ llaw haelionus, a hyny yn y modd mwyaf teimladwy a dirodres. Perchid hi gan bawb a'i hadwaenai am ei hamryw rinweddau, ac y mae ei marwolaeth sydyn wedi gwneyd llawer i wylo dagrau â chalon drallodedig. Gobeithio caiff ei phriod galarus a'i hanwyliaid bychain y fraint o gofio ei hymarweddiad diwair hi, ac yng ngwyneb y tywydd garw sydd wedi eu cyfarfod mor annisgwyliadwy yn bresennol, y cant gynorthwy gan yr Hwn sydd wedi addaw "nerth yn ol y dydd" i ystyried y wialen, a phwy a'i hordeiniodd. Mae ffyrdd rhagluniaeth fawr y Nef yn anolreiniadwy i ni, cymylau lu a thywyllwch dudew sydd yn amgylchynu olwyn fawr dybenion Duw yn bresenol, etto yng ngwyneb y cwbl oll cysur plant gwlad y cystuddiau yw mai "cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfainge Ef." Ymdawelwn gan hyny dan ei alluog law Ef gan lawn gredu fod pob peth yn cydweithio er daioni. Porth y bywyd yw marwolaeth, ac unwaith ceir myneniad trwy hwn mae y Cristion yn rhoddi ffarwel dragwyddol i holl ofidiau'r llawr. Dydd tywyll du, mae'n wir, yw dydd marwolaeth, ond daw tranoeth teg ar ol hyn. Dros brydnhawn yr erys wylofain, erbyn y boreu y daw gorfoledd. Cawn gyfarfod â'n hanwyliaid etto mewn gwell gwlad a than amgylchiadau mwy ffafriol na'r presenol. Diddenwn ein gilydd â'r gobeithion hyn. Gweinyddwyd yn y ty cyn cychwyn tua'r gladdfa gan y Parch. Wm. Rees, gweinidog Rhydygwin, yn deimladwy iawn, a gosodwyd ei gweddillion marwol i orphwys yn mynwent Ystrad hyd ddydd y dadebriad mawr. Darllenwyd gwasanaeth yr Eglwys yn ddifrifol ac effeithiol gan y Parch. Evan Morgan, ficer y plwyf.

"Mwy nid oes dim croes, dim cri,—neu gwynfan,
Ond gwynfyd sydd iddi
Yn y Nef oddiwrthym ni,
Yn un â miloedd yn moli."

E. W. Davies.

ARGRAFFWYD YN SWYDDFA'R "JOURNAL," CAERFYRDDIN.